



**Ymchwil i'r polisi
prasio mynediad mewn
amgueddfeydd a'i effaith -
Adroddiad Terfynol
Rhagfyr 2023**

CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD	1
	1.1 Cyflwyniad a Nodau	1
	1.2 Dull Gweithredu a Thasgau Allweddol	2
	1.3 Strwythur yr Adroddiad	
2	TROSOLWG O GODI TÂL MYNEDIAD PRESENNOL I AMGUEDDFEYDD	3
	2.1 Cyflwyniad i Adran 2	4
	2.2 Safle Codi Tâl Presennol Amgueddfeydd	4
	2.3 Newidiadau i Safle Codi Tâl Mynediad Amgueddfeydd mewn Blynnyddoedd Diweddar	9
	2.4 Ystyriaethau Eraill ynghylch Codi Tâl	14
3	BENCHMARKING MUSEUMS ADMISSION PRICING LEVELS	16
	3.1 Cyflwyniad i Adran 3	17
	3.2 Meincnodau Cyffredinol Prisio Mynediad Amgueddfeydd	17
	3.3 Meincnodau Prisio Mynediad Amgueddfeydd – Yn ôl Nodweddion Gwahanol (Math, Daeryddiaeth, Cyd-destun Lleol)	19
4	EFFAITH NEWID STRATEGAETHAU CODI TÂL MYNEDIAD	22
	4.1 Cyflwyniad i Adran 4	23
	4.2 Effaith Newidiadau i Godi Tâl Mynediad	23
	4.3 Cynnydd mewn Prisiau Mynediad	24
	4.4 Cyflwyniad i Fath(au) Newydd o Docyn Mynediad	25
	4.5 Symud o Godi Tâl Mynediad i Fynediad Di-dâl	26
	4.6 Symud o Fynediad Di-dâl i Godi Tâl Mynediad	28
5	ADLEWYRCHU AR BATRYMAU, ARLOESedd AC ARFER DA PRESENNOL YNGHYLCH PRISIO MYNEDIAD AMGUEDDFEYDD	30
	5.1 Cyflwyniad i Adran 5	31
	5.2 Patrymau Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd	31
	5.3 Arloesedd Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd	32
	5.4 Arfer Da Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd	33
	5.5 Gwersi a Ddysgwyd/Materion i'w Hystyried Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd	35
	ATODIAD 1: CRYNODEB O YMATEBION I'R AROLWG A CHANLYNIADAU AROLWG ALLWEDDOL	37
	ATODIAD 2: RHESTR A CHRYNODEB O YMGYNGOREUON AMGUEDDFA	72

Hoffai DC Research a Durnin Research ynghyd â chynrychiolwyr y Grŵp Llywio ar gyfer y prosiect hwn (Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) a'i phartneriaid Arts Council England (ACE), Museums Galleries Scotland (MGS), Llywodraeth Cymru, Cyngor y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol (NMDC), a'r Art Fund) estyn diolch i'r amgueddfeydd a'r unigolion i gyd a gyfrannwyd at yr astudiaeth ymchwil hon mewn ffyrdd amrywiol.

Mae hyn yn cynnwys pawb a oedd yn ymateb i'r arolwg, y rhai a gafodd eu hymgyngori gan y tîm astudio, a'r rhai a gytunodd i fod yn amgueddfa astudiaeth achos. Yn ogystal â hyn, estynir diolch i'r rhai a oedd yn darparu enghreifftiau o ymchwil a thystiolaeth flaenorol ynghylch codi tâl mynediad, a'r rhai a oedd yn gwneud sylwadau ar gasgliadau graddol gan yr ymchwil ar bwyntiau amrywiol (yn enwedig mynychwyr Cynhadledd Flynyddol AIM 2023).

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r sefydliadau hynny a oedd yn helpu mewn ffyrdd gwahanol i hyrwyddo'r arolwg o amgueddfeydd a ddigwyddodd fel rhan o'r ymchwil.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau hyn i gyd a'r amser a dreuliwyd yn fawr.



Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad a Nodau

- 1.1 Comisiynwyd ymchwil gan Gymdeithas yn Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) a'i phartneriaid Arts Council England (ACE), Museums and Galleries Scotland (MGS), Llywodraeth Cymru, Cyngor y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol (NMDA) ac Art Fund, gan DC Research Ltd mewn partneriaeth gyda Durnin Research Ltd i gyflenwi 'Ymchwil i'r polisi prisio mewn amgueddfeydd a'i effaith'.
- 1.2 Roedd yr ymchwil yn archwilio i bolisiâu mynediad a strategaethau prisio yn sector amgueddfeydd y DU ac yn ceisio asesu effaith codi pris (ai peidio) i fynediadau yn ogystal ag ymchwilio i strategaethau prisio gwahanol.
- 1.3 Roedd dau nod penodol gan yr ymchwil yn arbennig:
 - I ddeall strategaethau prisio, modelau a meincnodau presennol a phosibl, a'u heffaith lefel uwch ar gynulleidfaoedd amgueddfeydd; a sut y gall amgueddfeydd addasu prisio i ymateb i'r amgylchedd presennol ac i baratoi am y dyfodol.
 - I greu allbynnau y gall amgueddfeydd eu defnyddio wrth benderfynu ar strategaethau mynediad sydd yn gwneud y gorau o incwm gan bobl sydd yn gallu talu, yn rhoi'r amgueddfa yn nosbarth prisio cywir y farchnad, tra yn dal i gynnig opsiynau prisio sydd yn ei gwneud yn hygyrch a chroesawgar i bawb.
- 1.4 Ymdrinnir â'r cyntaf o'r nodau hyn ym mhrif adroddiad yr ymchwil, ac ymdrinnir â'r ail o'r nodau hyn yn y ddogfen ganllawiau ar wahân sydd wedi ei datblygu fel rhan o gyfres o gyhoeddiadau fel rhan o'r ymchwil hon.

1.2 Dull Gweithredu a Thasgau Allweddol

- 1.5 Roedd yr ymchwil, a gomisiynwyd ar ddiwedd 2022, ac a gwblhawyd ym Medi 2023, yn cynnwys y canlynol
 - **Ymchwil a Dadansoddiad Desg.** Roedd y cam hwn yn cynnwys tri maes o ymchwil a dadansoddiad desg: crynodeb adolygiad llenyddiaeth o ymchwil ac astudiaethau perthnasol, casglu a dadansoddi data, a datblygu'r offer ymchwil ac arolwg ar gyfer yr ymchwil.
 - **Sefydlu, Cwmpasu a Chynnydd.** Cynhaliwyd cyfarfod sefydlu, trafodaethau cwmpasu cychwynnol, a chyfarfodydd cynnydd parhaus trwy gydol yr astudiaeth ymchwil rhwng y tîm astudio a'r Grŵp Llywio (a oedd yn cynnwys cynyrchiolwyr o AIM, ACE, MGS, Llywodraeth Cymru, NMDC, a'r Art Fund).
 - **Arolwg o'r Sector Amgueddfeydd.** Maes allweddol o'r ymchwil oedd datblygu a gweithredu arolwg ar-lein, yn agored i bob amgueddfa yn y DU. Nod yr arolwg oedd mabywsiadu dull gweithredu eang a chynhwysfawr i helpu i sicrhau bod casgliadau'r ymchwil yn gryf ac yn drylwyr yn nhermau darparu cwmpas digonol o'r sector amgueddfeydd, yn ogystal â sicrhau bod yr ymchwil yn gynhwysol a thryloyw yn nhermau'r cyfle i amgueddfeydd ymgysylltu ynddi. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Chwefror-Mawrth 2023 a chafwyd ei hyrwyddo drwy lwybrau amrywiol, gan gynnwys cymorth gan sefydliadau Grŵp Llywio yn ogystal ag amrywiaeth eang o sefydliadau a rhwydweithiau amgueddfeydd eraill – gyda phob un ohonynt yn helpu i arwain at ymateb da i'r arolwg. Ar y cyfan, **cafwyd**

dros 450 o ymatebion crai i'r arolwg, ac unwaith i'r data gael eu glanhau, defnyddiwyd cyfanswm o 344 o ymatebion dilys yn y dadansoddiad. Mae hyn yn gyfradd ymateb wych i arolwg o'r math hwn, ac mae ystyried yr ymatebion arolwg yn ôl lleoliad daearyddol a math yr amgueddfa yn dangos fod cymysgedd da o amgueddfeydd wedi ymateb i'r arolwg – mae rhagor o fanylion ar gael am hyn yn Atodiad 1 yr Adroddiad hwn.

- **Ymgynghoriadau Amgueddfa.** Cynhaliwyd amrywiaeth o ymgynghoriadau a thrafodaethau gyda sampl o amgueddfeydd, gyda'r nod o ategu'r arolwg a darparu dealltwriaeth ddyfnach, mwy ansoddol, a mwy manwl o'r materion ynghylch polisiau prisio mynediad i amgueddfeydd. Nodwyd yr amgueddfeydd a ddewiswyd ar gyfer yr ymgynghoriadau hyn mewn cydweithrediad â'r Grŵp Llywio, gan ddefnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys canlyniadau'r arolwg, yn ogystal ag enghreifftiau a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, ac arbenigedd y Grŵp Llywio a'r tîm astudio. **Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda chyfanswm o 29 o amgueddfeydd yn ystod y cam hwn,** a cheir rhestr o'r ymgynghoreion yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn, sydd yn dangos fod cymysgedd da o ymgynghoreion – yn nhermau math o amgueddfa, maint yr amgueddfa, lleoliad daearyddol, a pholisiau prisio mynediad diweddar – wedi ei gyflawni
- **Enghreifftiau o Astudiaethau Achos.** Gan ddefnyddio'r ymgynghoriadau amgueddfa hyn, datblygwyd amrywiaeth o enghreifftiau o astudiaethau achos, i amlygu casgliadau a themâu penodol o'r ymchwil. Ceir y disgrifiadau cryno hyn eu cynnwys ym mhrif adrannau'r adroddiad, ac hefyd yn y ddogfen ganllawiau a gynhyrchwyd fel rhan o'r ymchwil hon.

1.3 Strwythur yr Adroddiad

1.6 Y ddogfen hon yw'r Adroddiad Terfynol ar gyfer '**Ymchwil i'r Polisi Prisio Mynediad mewn Amgueddfeydd a'i Effaith**' a gynhyrchwyd ym Medi 2023, ac mae ei strwythur fel a ganlyn::

- Mae **Adran 2** yn darparu **trosolwg o'r arferion a strategaethau presennol a diweddar** ynghylch codi tâl mynediad i amgueddfeydd.
- Mae **Adran 3** yn edrych ar brisiau mynediad presennol ar gyfer amgueddfeydd, ac yn **cyflwyno amrywiaeth o feincnodau pris mynediad** i amgueddfeydd yn y DU ar gyfer mathau allweddol o docyn – yn gyffredinol ac wedi'u dadgyfuno gan nodweddion a ffactorau cyd-destunol amgueddfeydd.
- Mae **Adran 4** yn cyflwyno casgliadau'r ymchwil am **effeithiau'r strategaethau codi tâl mynediad gwahanol, a'r effaith o newid y polisi prisio mynediad ar amgueddfeydd.** Mae hyn yn canolbwyntio ar y pedwar newid mwyaf cyffredin – cynnydd mewn prisiau mynediad, cyflwyno mathau newydd o docyn, symud o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl, a symud o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad.
- Mae **Adran 5** yn adlewyrchu ar gasgliadau'r ymchwil, ac yn amlinellu rhai o'r **patrymau allweddol** ynghylch strategaethau prisio mynediad i amgueddfeydd, yn nodi rhai o'r **arloesi sy'n dod i'r amlwg** ynghylch prisio mynediad, yn amlygu rhai **enghreifftiau o arfer da,** ac yn cyflwyno **gwersi allweddol i amgueddfeydd** am godi tâl mynediad.
- Mae **Atodiad 1** yn cyflwyno rhagor o wybodaeth am yr arolwg o'r sector amgueddfeydd. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o broses yr arolwg, cynrychioldeb yr ymatebion, a chasgliadau yr arolwg ar gyfer y cwestiynau arolwg diamod a meintiol.
- Mae **Atodiad 2** yn rhestru ac yn disgrifio'n gryno yr amgueddfeydd a oedd yn rhan o gyfnod Ymgynghoriadau Amgueddfa yr ymchwil.



Trosolwg o godi tâl
mynediad presennol
i amgueddfeydd


Trosolwg o godi tâl mynediad presennol i amgueddfeydd

2.1 Cyflwyniad i Adran 2


- 2.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno casgliadau'r ymchwil am safle codi tâl cyffredinol amgueddfeydd ar hyn o bryd. Mae'n edrych ar raddfa bresennol codi tâl a pheidio â chodi tâl mewn amgueddfeydd, yn asesu'r safle codi tâl yn gymharol â nodweddion allweddol amgueddfeydd, yn ystyried tueddiadau diweddar ynghylch newidiadau i safle codi tâl mynediad amgueddfeydd, yn ogystal ag amlygu'r materion ac ystyriaethau sydd yn dylanwadu ar y strategaethau codi tâl mynediad mewn amgueddfeydd.
- 2.2 Nodwch os gwelwch yn dda, bod y tabl a gyfeirir ato trwy gydol yr adran hon yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn, a bod y siartiau isod yn fersiynau cryno o'r un canlyniadau.

2.2 Safle Codi Tâl Presennol Amgueddfeydd


- 2.3 Yn nhermau'r safle codi tâl cyffredinol i amgueddfeydd, mae Tabl A1.3 yn dangos fod ychydig dros hanner (51%) o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol. Ar y llaw arall, nid yw dros draean ohonynt (36%) yn codi unrhyw dâl mynediad o gwbl. Mae ychydig yn llai nag un o bob deg ohonynt (8%) yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol a mynediad i arddangosfeydd penodol, tra bod 4% yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig.
- 2.4 Ar y cyfan, mae hyn yn dangos fod 64% o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad mewn rhyw ffurf, tra bod 36% o amgueddfeydd yn adrodd nad ydynt yn codi tâl ar gyfer mynediad o gwbl.



- 2.5 Mae cymharu'r sefyllfa gyda'r ymchwil flaenorol o 2016 yn dangos fod cyfran uwch o mgueddfeydd erbyn hyn yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol (51% yn 2023 o gymharu â 42% yn 2016), a bod lleihad yn y rhai nad ydynt yn codi tâl o gwbl (o 43% i 36%). Mae lleihad hefyd yn y gyfran o amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol (o 12% i 8%).



- 2.6 Gellir cymharu canlyniadau'r arolwg hwn – sydd yn dangos yn gyffredinol fod 64% o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol a/neu mynediad i arddangosfeydd penodol, a nad yw 36% o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol - i gasgliadau ymchwil arall ar hyn. Mae cymariaethau fel hyn yn adlewyrchu bod ymatebwyr i'r arolwg hwn yn fwy cynrychiadol o amgueddfeydd annibynnol nag o rannau eraill o'r sector amgueddfeydd, gyda ffynonellau eraill yn adrodd cyfraddau uwch o amgueddfeydd nad ydynt yn codi tâl ar gyfer mynediad nag yn yr ymchwil hon. Er enghraifft, yn ôl gwaith diweddar ar gyfer MGS¹ yn ogystal â'r Arolwg Sbotolau Amgueddfeydd 2022² a gyhoeddwyd yn ddiweddar am amgueddfeydd yng Nghymru, roedd cyfrannau uwch o amgueddfeydd nad ydynt yn codi tâl mynediad, ac mae data DU-eang gan yr Art Fund sydd yn benodol i amgueddfeydd Art Fund yn adrodd yr un peth. I amgueddfeydd yn Lloegr, roedd data o'r Arolwg Amgueddfeydd Blynyddol³ yn dangos nad yw 43% o amgueddfeydd yn codi tâl mynediad nag ar gyfer arddangosfeydd, gan ddangos patrymau tebyg i'r rhai sydd yn amlwg yn yr ymchwil hon.
- 2.7 Gellir ystyried y safle codi tâl mynediad presennol hefyd drwy edrych ar nodweddion amrywiol eraill amgueddfeydd, gan gynnwys math a lleoliad yr amgueddfa, ei safle cyllido craidd, lefel y gystadleuaeth i ddenu ymwelwyr, arwyddocâd yr economi ymwelwyr i'r ardal leol, pwysigrwydd yr amgueddfa i economi ymwelwyr yr ardal leol, maint yr amgueddfa, graddfa'r ymwelwyr lleol, a'u hamser aros.
- 2.8 Mae Tabl A1.4 yn dangos, yn nhermau codi tâl mynediad presennol yn ôl y math o amgueddfa, fod amgueddfeydd awdurdod lleol yn llai tebygol o godi tâl mynediad o'u cymharu ag amgueddfeydd annibynnol neu rai cyn-awdurdod lleol. Nid yw 71% o amgueddfeydd awdurdod lleol yn codi tâl tra bod dim ond 33% o amgueddfeydd annibynnol a chyn-awdurdod lleol yn peidio â chodi unrhyw dâl o gwbl.



- 2.9 Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos nad yw amgueddfeydd prifysgol yn codi tâl o gwbl ar gyfer mynediad, bod Amgueddfeydd Cenedlaethol yn codi tâl mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig, a bod amgueddfeydd milwrol yn fwy tebygol o godi tâl mynediad o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol.
- 2.10 Yn nhermau lleoliad amgueddfa, mae Tabl A1.5 yn dangos fod amrywiaethau bach yn unig yn ôl lleoliad o ran safle codi tâl amgueddfeydd, gydag amgueddfeydd yn Llundain a De Orllewin Lloegr ychydig yn fwy tebygol o beidio â chodi tâl mynediad, tra bod amgueddfeydd yng

¹ <https://www.museumsgalleryscotland.org.uk/wp-content/uploads/2023/02/Survey-of-Scotlands-Museums-and-Galleries-Final-Report-301122-CF.pdf>


² <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-09/museum-spotlight-survey-2022-364.pdf>

³ <https://southwestmuseums.org.uk/annual-museum-survey-archive/>

Ngogledd Lloegr yn fwy tebygol o godi tâl mynediad cyffredinol o'u cymharu â'r cyfartaledd, sydd hefyd yn wir o amgueddfeydd yng Nghymru.

2.11 Mae edrych ar bolisi prasio mynediad presennol amgueddfeydd mewn perthynas â'r cyllido craidd (gweler Tabl A1.6) yn dangos, heb syndod efallai, fod amgueddfeydd sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am fwy na 75% o'u hincwm yn llai tebygol o godi tâl mynediad (nid yw 64% o'r amgueddfeydd hyn yn codi tâl o'u cymharu â 36% ar y cyfan). Mae amgueddfeydd sydd heb unrhyw gyllidwyr craidd yn adlewyrchu'r safle cyffredinol o bob amgueddfa gyda 35% yn peidio â chodi tâl mynediad o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 36%.

2.12 Yn ddi-ddorol, mae'r rhai sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am lai na chwarter o'u hincwm yn fwy tebygol o godi tâl mynediad (mae 86% yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf, o'u cymharu â 64% ar y cyfan). Yn ddi-ddorol, mae'r rhai sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am rhwng 25% a 50% o'u hincwm, (ac i raddau hyd yn oed yn fwy), rhwng 50% a 75% o'u hincwm yn fwy tebygol o godi tâl ar gyfer mynediad mewn rhyw ffordd. Mae 72% o'r rhai sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am rhwng un chwarter ac un hanner o'u hincwm yn adrodd eu bod yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf (o'u cymharu â 64% ar y cyfan), tra bod 79% o'r rhai sydd â chyllido craidd yn cyfrif am rhwng hanner a three chwarter o'u hincwm yn adrodd eu bod yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf (o'u cymharu â 64% ar y cyfan).




2.13 O edrych ar y polisi prasio mynediad presennol mewn perthynas â'r lefel hunan-adroddedig o gystadleuaeth i ddenu ymwelwyr (Tabl A1.7) mae canlyniadau'r arolwg yn dangos fod perthynas gyfyngedig rhwng pa un a yw amgueddfeydd yn codi tâl mynediad ai peidio, a'r lefel o gystadleuaeth i ddenu ymwelwyr.

2.14 Mae rhai canlyniadau yn werth eu hamlygu o ran y polisi prasio mynediad presennol mewn perthynas ag arwyddocâd yr economi ymwelwyr i'r ardal leol (gweler Tabl A1.8). Mae amgueddfeydd sydd yn adrodd nad yw'r economi ymwelwyr lleol 'yn arwyddocaol o gwbl' yn llai tebygol o godi tâl mynediad (dim ond 13% sydd yn codi tâl o gwbl o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 64%). Ar y llaw arall, mae amgueddfeydd sydd yn disgrifio eu heconomi ymwelwyr lleol fel 'sector allweddol' neu 'un o nifer o sectorau arwyddocaol' yn fwy tebygol o godi tâl mynediad (73% a 72% yn ôl eu trefn o'u cymharu â 64% ar gyfartaledd yn gyffredinol).

2.15 Mae perthynas glir iawn yn dod i'r amlwg pan gaiff pwysigrwydd hunan-adroddedig yr amgueddfa i'r economi ymwelwyr lleol ei hystyried fel nodwedd ynghylch y polisi priso mynediad presennol ar gyfer amgueddfeydd. Mae Tabl A1.9 yn dangos:

- Pan nodir yr amgueddfa fel 'ddim yn bwysig o gwbl', dim ond 27% sydd yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad o fân arwyddocâd', mae 55% yn codi rhyw ffurf o dâl mynediad.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad o arwyddocâd cymedrol', mae 62% yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'un o nifer o atyniadau arwyddocaol', mae 72% yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad allweddol' (h.y. amgueddfa gyrchfan sy'n denu pobl i'r ardal), mae 81% yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf.

2.16 Yn nhermau maint amgueddfa, mae Tabl A1.10 yn dangos fod amgueddfeydd llai ar gyfartaledd, o'u cymharu â rhai cymedrol eu maint neu rai mwy, ychydig yn fwy tebygol o godi tâl mynediad. Mae'r casgliad hwn, o ddiffyg perthynas glir rhwng maint amgueddfa a'r tebygolrwydd eu bod yn codi tâl, hefyd yn cael ei gadarnhau gan ffynonellau eraill – roedd data wedi'u teilwra o Arolwg Amgueddfeydd Blynyddol 2022⁴ yn cadarnhau hyn.



2.17 Mae edrych ar y safle codi tâl mynediad yn gymharol â'r math o ymwelwyr y mae amgueddfeydd fel arfer yn eu cael (ble cafodd amgueddfeydd eu categoreiddio yn seiliedig ar y gyfran eu hymwelwyr sydd yn lleol) mae Tabl A1.11 yn dangos fod amgueddfeydd ble mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn cyfrif am fwy na 50% o'r gynulleidfa yn llai tebygol o godi tâl mynediad (nid yw 41% yn codi tâl) o'u cymharu â'r rhai ble mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn llai na 50% o'r gynulleidfa (nid yw 24% yn codi tâl mynediad).

2.18 Pan ystyrir y safle codi tâl mynediad mewn perthynas ag amserau aros nodweddiadol ymwelwyr (gweler Tabl A2.12), ble mae amser aros o lai na 30 munud gan fwy na 50% o ymwelwyr, mae'r mwyafrif o'r amgueddfeydd hyn (79%) yn peidio â chodi tâl. Ar ochr arall y sbectrwm amser aros, mae'r amgueddfeydd sydd â mwy na 50% o'u hymwelwyr yn aros am fwy na 4 awr, i gyd yn codi tâl mynediad (100%).

2.19 Wrth edrych ar amgueddfeydd ble mae gan fwy na 50% o ymwelwyr amser aros o rhwng 2 a 4 awr, gwelwn fod 86% yn codi tâl mynediad, ac yna ar amgueddfeydd ble mae gan 50% amser aros o rhwng 30 munud a 2 awr, gwelwn fod 70% yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf. Ar

⁴ Darparwyd data wedi'u teilwra o Arolwg Amgueddfeydd Blynyddol 2022 (<https://southwestmuseums.org.uk/annual-museum-survey-archive/>) i'r tîm astudio ar gyfer yr ymchwil hon gan South West Museum Development. Rydym yn gwerthfawrogi eu cymorth wrth ddarparu'r data hyn i hysbysu'r ymchwil hon yn fawr.


y cyfan, mae hyn yn dangos fod amgueddfeydd, yn nodweddiadol, ble mae amser aros mwy na hanner yr ymwelwyr yn llai na 30 munud yn llai tebygol o lawer o godi tâl mynediad na'r amgueddfeydd hynny sydd yn adrodd amserau aros uwch – ac mae hyn yn gynyddol wir po fwyaf yw'r amser aros. Fodd bynnag, ni ellir dyfalu yr union achos ac effaith ar y ffactorau hyn – gallai fod oherwydd fod amserau aros is gan amgueddfeydd di-dâl (ond o bosib gydag amledd uwch o ymweliadau), yn hytrach nag amgueddfeydd gydag amserau aros is yn dewis peidio â chodi tâl.

- 2.20 Gofynnwyd i amgueddfeydd fel rhan o'r arolwg, ac hefyd trwy gyfweiliadau ymgynghori'r amgueddfeydd, am amlinellu'r ffactorau allweddol a oedd yn dylanwadu ar eu safle codi tâl a phrisiau presennol.
- 2.21 Mae amgueddfeydd a ymatebwyd wedi gwneud amrywiaeth o newidiadau i'w dulliau gweithredu o ran codi tâl mynediad. Mae llawer wedi gweithredu cynnydd yn eu tâl mynediad, gydag amrywiaeth o fathau o gynnydd ar gyfer tocynnau oedolion o gyn lleied â 25c ac uwch, gyda'r mwyafrif ohonynt yn codi prisiau rhwng 5% a 10%. Gweithredwyd rhai o'r rhain fel rhan o gylch cynllunio busnes, gydag eraill yn digwydd mewn amgylchiadau ble nad oedd newid pris wedi digwydd am rywfaint o amser, neu yn dilyn newid arwyddocaol yn yr amgueddfa honno (megis cynnig cyfyngedig o ganlyniad i ailddatblygu neu adferiad).
- 2.22 Roedd nifer o amgueddfeydd wedi oedi cynyddu prisiau yn ystod y pandemig, tra bod eraill wedi lleihau prisiau neu wedi symud i fod y ddi-dâl. Ar ôl y pandemig, roedd y mwyafrif ohonynt naill ai yn dychwelyd i'w pris blaenorol, neu yn cynyddu prisiau o 2022 ymlaen. Er enghraifft, i'r Henry Moore Studios and Gardens, dim ond rhan o'u safle oedd yn bosib ei agor yn ystod y pandemig, felly gostyngwyd pris eu tocyn yn ystod y cyfnod hwn.
- 2.23 Penderfynodd nifer fach i beidio ag ailgyflwyno tâl yn dilyn y pandemig. .
- 2.24 Mae nifer o amgueddfeydd wedi mynd trwy broses o symleiddio tâl mynediad, gan leihau'r nifer o fathau o docyn sydd ar gael. Mae rhai wedi dileu tocynnau teulu, gyda phlant fel arfer naill ai yn cael mynediad di-dâl neu fynediad rhatach, er bod gan un amgueddfa un tâl mynediad sengl heb unrhyw wahaniaeth. Mae eraill wedi gweithredu cymysgedd o godi tâl a pheidio mewn lleoliad neu dâl mynediad safle-eang.
- 2.25 Er enghraifft, mae Amgueddfa Beamish yn adlewyrchu ar ei newidiadau tocyn dros y blynyddoedd diweddar, ac wedi casglu fod defnyddio llai o fathau o docyn wedi bod yn effeithiol – “po fwyaf syml yw'r cynnig, y mwyafrif yw'r ffocws ar y cwsmer”; “roeddem yn gweithio'n galed iawn i'w wneud yn rhwydd”; ac “mae gennym ragor o waith i'w wneud yn y maes hwn, ac rydym yn y broses o adolygu ein proses tâl mynediad – gan weithio tuag at fanteisio ar y datrysiadau digidol sydd ar y farchnad er mwyn rhoi'r mynediad llyfnaf posib i'r amgueddfa i'n hymwelwyr”. O ystyried y nifer o ymwelwyr y gall Beamish gael mewn diwrnod, “rhaid i hyn fod yn syml”.
- 2.26 Yn ogystal, roedd Wordsworth Grasmere yn amlygu'r pwysigrwydd o “gadw pethau'n syml” i staff ac ymwelwyr o ran tocynnau – yn enwedig tocynnau teulu. Rhoddwyd pwyslais ar ddarparu gwerth eu harian i deuluoedd, heb ei wneud yn gymhleth yn nhermau tocynnau.
- 2.27 Mae rhai amgueddfeydd wedi dechrau cynlluniau aelodaeth gyda disgowntiau i fynediad a digwyddiadau safonol. Er enghraifft, mae Ironbridge Gorge Museum Trust wedi cyflwyno tocyn blynyddol 'pass plus' am bris uwch ond gyda manteision ychwanegol (megis disgowntiau manwerthu ac arlwygo).

- 2.28 Mae amgueddfeydd sydd yn ddiweddar wedi cael ailddatblygiad sylweddol, yn aml yn cyflwyno codi tâl, neu yn cynyddu prisiau o ganlyniad i hyn. Er enghraifft, ailagorwyd Wordsworth Grasmere yn 2021 gyda strwythur prisiau newydd, a chynnydd prisiau i adlewyrchu'r cynnig ehangach, wedi'i gydwbysio â thocynnau teulu â disgownt a chonsesiwn newydd ar gyfer tocyn oedolion 65+. Fel gwrthgyferbyniad i hyn, lansiodd a gweithredwyd y man arddangos ar drydydd llawr Derby's Museum of Making, am ddwy flynedd fel man arddangos gyda thâl, gan ddychwelyd at fod yn ddi-dâl yn 2023 gan eu bod yn teimlo nad oedd hyn yn gynaliadwy, a'i fod yn cynyddu disgwyliadau ac yn drysu ymwelwyr.
- 2.29 Mae nifer o amgueddfeydd sydd yn codi tâl wedi newid eu dull gweithredu, er enghraifft drwy gyflwyno newidiadau i docynnau teulu neu fynediad di-dâl i blant, gan dynnu consesiynau sy'n perthyn i oedran, a chyflwyno pasiau blynyddol a thocynnau Gift Aid. Mae rhai a oedd yn flaenorol yn codi tâl ar gyfer rhan o'r ymweliad (megis teithiau ac arddangosfeydd), wedi symud i godi tâl mynediad safle-eang.
- 2.30 Cyflwynodd y Charles Dickens Museum fynediad di-dâl cysylltiedig â phartneriaeth, gan weithio gydag elusennau, partneriaid a grwpiau cymunedol, i nodi grwpiau cynulleidfa mewn angen er mwyn cynnig mynediad di-dâl iddynt. Mae'r National Civil War Centre yn Newark wedi cynnal cynllun peilot o fynediad hanner pris i breswylwyr, a mynediad di-dâl i breswylwyr, yn ystod gwyliau'r ysgol. for residents, and free entry for residents, during school holiday periods.


2.3 Newidiadau i Safle Codi Tâl Mynediad Amgueddfeydd mewn Blynyddoedd Diwedders

- 2.31 I ystyried unrhyw newidiadau diweddar i strategaethau prasio mynediad amgueddfeydd, gofynnodd yr arolwg i adrodd pa un a oeddent wedi newid eu safle codi tâl mynediad mewn blynyddoedd diweddar. Mae Tabl A1.13 yn dangos fod hanner o'r ymatebwyr (50%) yn adrodd nad oeddent yn gwneud unrhyw newid i'w safle codi tâl mynediad yn ystod unrhyw rai o'r cyfnodau amser penodol hyn (2018 a 2019, 2020 a 2021, na 2022). I'r amgueddfeydd hynny a oedd yn newid eu safle, y math mwyaf cyffredin o newid oedd ynghylch costau mynediad, ac roedd hyn ar ei fwyaf cyffredin yn 2022 gyda 28% o ymatebwyr yn adrodd newid fel hyn. Roedd yn gyffredin hefyd yn 2021-2021 ac hefyd yn 2018-2019 ble'r oedd mwy nag un pumed o ymatebwyr yn adrodd gwneud newid i'w safle prasio mynediad cyffredinol (22% a 21% yn ôl eu trefn).



2.32 I'r amgueddfeydd hynny a oedd yn newid eu safle codi tâl mynediad, y math mwyaf cyffredin o newid o bell ffordd oedd cynnydd mewn costau mynediad gyda 70% o ymatebwyr yn adrodd hyn (gweler Tabl A1.14). Y newid mwyaf cyffredin ar ôl hyn oedd cyflwyno math(au) newydd o docyn mynediad gyda 30% o ymatebwyr yn adrodd eu bod wedi gwneud y math hwn o newid. Dim ond lleiafrif bach o ymatebwyr (5%) oedd yn adrodd cyflwyno lleihad yn eu prisiau mynediad dros y cyfnod hwn.

2.33 Yn nhermau gwneud newidiadau mwy sylweddol i'w safle codi tâl mynediad roedd 18% yn adrodd eu bod yn symud o godi tâl i fynediad di-dâl yn ystod y cyfnod hwn, tra bod 11% yn adrodd symud o fynediad di-dâl i godi tâl.



2.34 Roedd amgueddfeydd a oedd yn adrodd eu bod wedi cynyddu prisiau yn enwi amrywiaeth o ffactorau a oedd wedi eu hategu gan yr angen i gynyddu incwm. Y prif reswm am hyn yw costau cynyddol, yn ogystal â'r angen i wneud yr amgueddfa yn fwy cynaliadwy, er bod rhai yn cysylltu hyn i adferiad ar ôl y pandemig, a'r angen i ymateb i gwmpwys refeniw.

2.35 Eglurodd yr amgueddfeydd a oedd yn newid eu dull gweithredu o ran codi tâl mai'r angen i symleiddio tocynnau, cynyddu ymwelwyr (yn gyffredinol yn ogystal â thargedu grwpiau penodol fel teuluoedd neu bobl ifanc ar ôl y pandemig, a gwella eu cynnig o ganlyniad i ailddatblygu neu adnewyddu).

2.36 Eglurodd Charles Dickens Museum fod eu prisiau heb newid am nifer o flynyddoedd. Yn dilyn proses meincnodi, penderfynodd yr amgueddfa gynyddu prisiau ar yr un adeg â chynnig 'mwy am fwy', a chynnwys canllaw sain fel adnodd i'w lawrlwytho a'i gadw.

2.37 Roedd y mwyafrif o amgueddfeydd a oedd yn adrodd symud o godi tâl i fynediad di-dâl yn gwneud hyn i gynyddu ymwelwyr a gwneud y gorau o roddion. Er enghraifft, roedd yr Isle of Wight Glass Museum yn edrych ar annog rhoddion gan ymwelwyr a chynyddu ymwelwyr i a defnydd o siop yr amgueddfa, ac roedd Museum of Making Derby yn darganfod fod codi tâl mynediad i'w man arddangos bach yn cyfyngu'r sgôp i gynhyrchu incwm gan roddion.

2.38 Roedd amgueddfeydd a oedd yn symud o fynediad di-dâl i godi tâl yn enwi cynaliadwyedd fel y prif ffactor.

2.39 Amlygwyd meincnodi a dadansoddi cystadleuwyr gan lawer o amgueddfeydd fel rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau ar draws y ffactorau i gyd sy'n dylanwadu ar newid, gyda rhai yn amlygu pwysigrwydd y dull gweithredu hwn mewn cydbwysu'r angen i gynhyrchu incwm yn erbyn cyflawni'r pwrpas cyffredinol.

- 2.40 Er enghraifft, pwysleisiwyd y pwysigrwydd o wneud llawer o feincnodi ynghylch prisio gan Wordsworth Grasmere, yn enwedig yn dilyn ailddatblygu er mwyn gwirio sut yr oeddent yn eu cymharu ag amgueddfeydd ac atyniadau ymwelwyr perthnasol eraill – gan bwysleisio bod meincnodi gydag atyniadau ymwelwyr eraill o fathau gwahanol sydd ag amserau aros tebyg yn bwysig, yn lle edrych yn unig ar amgueddfeydd eraill. Mae'n bwysig iawn i sicrhau bod cymaryddion meincnodi yn berthnasol yn nhermau amser aros, y math o gynulleidfa, ansawdd y cynnig a chyfleusterau.
- 2.41 Amlygwyd adolygiadau ffurfiol gan rai amgueddfeydd fel rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau am newidiadau i fynediadau, yn arferol fel rhan o gylch cynllunio busnes blynyddol. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:
- Eglurodd Ironbridge Gorge Museum Trust fod y penderfyniad i gynyddu'r tâl mynediad yn rhan o'r broses gosod cyllid blynyddol er mwyn gwrthbwyso costau cynyddol wrth barhau i gydnabod y pwysigrwydd o gyflenwi gwerth eu harian i ymwelwyr a phrisio cystadleuwyr.
 - Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o adolygu prisio yn flynyddol gan Beamish Museum – ond hefyd “y dylai gwerthoedd yr amgueddfa hysbysu pob penderfyniad busnes” – gan bwysleisio na ddylid penderfyniadau am strategaeth fynediad a phrisio gael eu gwneud ar wahân. Mae meincnodi yn “broses hanfodol” o ran gosod prisiau mynediad i Beamish Museum – mae tynnu ar amrywiaeth o gymaryddion perthnasol lleol a chenedlaethol ac edrych ar y cynnig gan y cymaryddion hyn a'u pris yn rhan o'r broses hon.
 - Mae Trimontium Museum yn meincnodi gyda sefydliadau lleol o faint/lleoliad tebyg a chymaryddion perthnasol eraill (safleoedd Rhufeinig eraill yn achos Trimontium), gan adolygu asesu incwm a thargedau i gydbwyso gwneud ymweliad yn fforddiadwy wrth fod yn gynaliadwy.
- 2.42 Roedd rhai amgueddfeydd yn penderfynu ar ddull gweithredu modelu i wneud penderfyniadau. Er enghraifft, roedd Heritage Centre Bellingham yn gwneud dadansoddiad ariannol yn ystod treial o newid polisi mynediad i asesu ei effeithiau. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o wneud asesiad risg ynghylch newid mewn strategaeth fel hyn gan y Ganolfan, a'i weithredu ar gyfer cyfnod cychwynnol o dreial a gwerthuso'r effaith yn rhan bwysig o'r broses.
- 2.43 Yn y mwyafrif o achosion, gan gynnwys y rhai ble'r oedd adolygiadau a dadansoddi wedi digwydd, y prosesau llywodraethu yn eu lle ymhob amgueddfa a oedd yn gwneud y penderfyniadau ar bolisi mynediad. Fel arfer, bwrdd yr ymddiriedolwyr dan argymhelliad yr uwch reolwyr a fydd yn gwneud hyn.
- 2.44 Er enghraifft:
- Roedd Black Country Living Museum yn adolygu mynediadau fel rhan o osod cyllid ar gyfer yr amgueddfa gyfan gan y Tîm Arwain. Darparwyd craffu gan y Pwyllgor a'r Bwrdd yn seiliedig ar argymhelliad gan y Prif Weithredwr.
 - Archwiliwyd opsiynau gan Is-Gadeirydd West Highland Museum gyda'r Rheolwr Guradu. Y Bwrdd a oedd yn cymeradwyo'r penderfyniad i gyflwyno codi tâl i grwpiau.
 - Yn Yr Ysgwrn, gwelwyd angen i gynyddu prisiau gan staff, a chyflwynwyd adroddiad ganddynt i'r bwrdd ei gymeradwyo.
 - Mae unrhyw newidiadau a gynlluniwyd o ran prisiau mynediad yn Live Borders Museums & Galleries sydd yn dod i'r amlwg o ganlyniad i'r adolygiad prisiau blynyddol yn mynd trwy broses o'r cynllun prisiau yn cael ei adolygu gan y pennaeth gwasanaethau, yna'r partneriaid yn cael eu ymgynghori ar y newidiadau arfaethaedig, cyn cael cymeradwyaeth derfynnol gan ymddiriedolwyr Live Borders /Scottish Borders Council.

- 2.45 Gofynnwyd nifer o gwestiynau dilynol am hyn i'r amgueddfeydd nad oedd wedi newid eu safle prisio mynediad mewn blynyddoedd diweddar. Mae'n ddiddorol nodi o'r amgueddfeydd hynny nad oedd yn adrodd unrhyw newid, fod bron i ddau draean (64%) ohonynt yn dweud nad oeddent wedi ystyried gwneud unrhyw newidiadau i'w safle mynediadau dros y cyfnod hwn o amser (gweler Tabl A1.15).
- 2.46 Mae'n ddiddorol nodi ystyriaeth y garfan hon o amgueddfeydd hefyd, o ran gwneud newidiadau pris mynediad ai peidio i'w safle codi tâl presennol. Mae Tabl A1.16 yn dangos fod y rhai nad ydynt yn codi tâl mynediad yn fwy tebygol o lawer i beidio ag ystyried gwneud newid. Yn ôl mwy na thri chwarter (76%) o'r rhai nad ydynt yn codi tâl, nid oeddent yn ystyried gwneud newid, tra bod llai na hanner ohonynt sydd yn codi tâl mynediad (47%) yn adrodd nad oeddent yn ystyried gwneud newid.
- 2.47 Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu felly fod carfan nodedig o amgueddfeydd (tua un chwarter o ymatebwyr yr arolwg) nad ydynt yn codi tâl mynediad, ac nad ydynt wedi ystyried newid y safle hon dros y blynyddoedd diweddar. O edrych ar y garfan hon o amgueddfeydd, nid oes unrhyw batrwm cryf neu amlwg o nodweddion ganddynt – maent fel arfer yn cynrychioli ymatebwyr cyffredinol yr arolwg yn nhermau math, a lleoliad yr amgueddfa a.y.b. Fodd bynnag, mae'r amgueddfeydd hyn ychydig yn fwy tebygol o fod yn amgueddfeydd llai (o ran nifer ymwelwyr) ac yn fwy tebygol o adrodd fod mwyafrif llethol eu hincwm (75%+) yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd.
- 2.48 O'r ymatebwyr hynny nad oeddent wedi newid eu safle prisio ond a oedd wedi ystyried gwneud newidiadau i'w safle codi tâl mynediad (y 36% yn Nhabl A1.15), roedd llawer ohonynt yn amlygu pwysau costau byw presennol yn ffactor allweddol mewn peidio â newid eu safle. Yn gysylltiedig i hyn oedd pryderon am yr effaith negyddol posib y bydd unrhyw newidiadau yn eu cael ar hygyrchedd, ymgysylltiad â grwpiau cynulleidfaoedd targed a niferoedd ymwelwyr.
- “Rydw i wedi awgrymu bod yr ymddiriedolwyr yn adolygu'r prisiau, hyd yn oed os ydynt yn dod i'r casgliad y dylai hyn aros yr un peth. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos fod y status quo yn cael ei gynnal oherwydd y nifer o daflenni amgueddfa cyffredinol sydd gennym mewn stoc.”
- “Nid oeddem eisiau cynyddu'r pris mynediad pan oedd ymwelwyr yn wynebu'r her o gostau byw uwch.”*
“Roedd yr achos busnes ac ymchwil ymwelwyr yn llywio'n gryf tuag at beidio â gwneud newidiadau.”
- 2.49 Mae hyn yn cynnwys rhai ymatebwyr sydd yn teimlo bod eu hymwelwyr yn disgwyl mynediad di-dâl; lleoliad mewn ardaloedd o amddifadedd, a rhai a oedd yn teimlo nad oedd ymweliad yn werth tâl (er enghraifft, “rydym yn cael sylwadau fel ‘ai dyma'r cyfan? ‘ am faint sydd i'w weld a gwneud” a “Rhaid i ni wella cynnig ymwelwyr cyn y gallwn roi tâl mynediad yn ei le”). Roedd rhai yn teimlo y bydd incwm o roddion yn fwy nag incwm o unrhyw newidiadau i'w tâl mynediad (“Roeddem yn penderfynu y bydd pobl yn rhoi'r gorau i roddion gwirfoddol os oedd tâl mynediad.”).
- 2.50 Adroddwyd gan nifer o'r amgueddfeydd a oedd yn ymateb eu bod yn adolygu eu polisi mynediad yn weithredol neu yn cynllunio i'w newid yn 2023; y rhesymau allweddol dros hyn oedd adennill ar ôl y pandemig a gwaith trwsio yn digwydd. Er enghraifft, cyn 2023, roedd y Black Country Living Museum yn cynyddu ei phrisiau diwethaf yn 2018. Ei blaenoriaeth oedd adfer ar ôl y pandemig dros reffeniw, ac roedd hi'n dod i ddiwedd prosiect cyfalaf mawr a oedd yn achosi rhywfaint o darfu i ymwelwyr, gan gynnwys colli rhai atyniadau allweddol. Roedd yr amgueddfa yn frwdfrydig i sicrhau gwerth am arian ac felly cytunwyd i beidio â chynyddu prisiau am dair blynedd o 2019 i 2022, ond mae hi wedi cynyddu prisiau ar gyfer 2023 wrth i'r datblygiad gael ei gwblhau, ac wrth iddynt ail agor y safle cyfan.
- 2.51 Fel yr amgueddfeydd hynny a oedd wedi newid eu safle codi tâl mynediad, yn y rhan fwyafrif o amgueddfeydd (gan gynnwys y rhai ble'r oedd adolygiadau a dadansoddi wedi digwydd), y trefniadau llywodraethu a'r prosesau yn eu lle ymhob amgueddfa a oedd yn gwneud y

penderfyniadau ar bolisi mynediad. Fel arfer, bwrdd yr ymddiriedolwyr dan argymhelliad yr uwch reolwyr a fydd yn gwneud hyn.

- 2.52 Defnyddiwyd meincnodi a modelu gan nifer o amgueddfeydd a oedd yn ystyried ond yna yn penderfynu peidio â gwneud newidiadau i'r prisiau mynediad, i hysbysu eu penderfyniad. Edrychodd y rhai a oedd yn defnyddio modelu ar gostau cynnal yn erbyn incwm i weld os oedd angen newidiadau o'r math hyn, gyda dulliau meincnodi yn edrych ar gymaryddion a beth oedd cystadleuwyr yn eu gwneud. Roedd rhai yn gwneud y penderfyniad hwn fel rhan o adolygiadau cynllunio busnes blynyddol.
- 2.53 Hefyd, gofynnwyd i ymatebwyr pa un a oeddent yn bwriadu newid eu safle codi tâl mynediad yn ystod y flwyddyn galendr hon (2023) ⁵. Mae Tabl A1.17 yn dangos nad oedd mwy na thri chwarter (76%) o ymatebwyr yn bwriadu newid eu safle codi tâl mynediad.
- 2.54 Croesdablwyd y canlyniadau hyn gyda'r safle codi tâl mynediad cyffredinol, ac mae A1.18 yn dangos nad oedd mwyafrif llethol (96%) yr amgueddfeydd hynny nad ydynt yn codi tâl mynediad yn bwriadu newid eu safle codi tâl mynediad. Mewn cymhariaeth, mae'r rhai sydd yn codi rhyw fath o dâl mynediad yn fwy tebygol o fwriadu newid eu safle codi tâl mynediad (37% o gymharu â 4% o'r rhai nad ydynt yn codi tâl).
- 2.55 Fel y nodir uchod (gweler Tabl A1.17), mae tua un chwarter o amgueddfeydd a ymatebwyd yn adrodd eu bod yn bwriadu newid eu dulliau gweithredu o ran mynediadau yn 2023. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn bwriadu cynyddu prisiau mynediad, gyda rhai yn newid neu yn tynnu i ffwrdd rhai o'u consesiynau. Yn ogystal â hyn, mae cwpwl yn cyflwyno pasys blynyddol.
- 2.56 Mae nifer fach ohonynt yn bwriadu symud tuag at fynediad di-dâl, ac un yn symud o beidio â chodi tâl mynediad i godi tâl. Mae eraill ar hyn o bryd yn adolygu eu safle ynghylch tâl mynediad.
- 2.57 Mae'r National Civil War Museum yn Newark yn adolygu'r heriau o ddarparu gwasanaethau ar ôl COVID ac effeithiau'r argyfwng costau byw, gyda phenderfyniad i gynnig mynediad di-dâl yn barhaol i breswylwyr. Gwnaed y penderfyniad hwn, a weithredwyd yn Ebrill 2023, oherwydd lefelau isel o ymgysylltiad gyda phreswylwyr pan fod tâl mynediad, a'r angen i gynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref. Mae'r amgueddfa yn disgwyl mwy o ymwelwyr o gynulleidfaoedd targed, cymuned leol sydd yn ymgysylltu'n well, a fydd yn arwain at eiriolaeth well, a chyfleoedd i gynyddu gwario eilaidd ar y safle.
- 2.58 Yn nhermau'r prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad i newid safle codi tâl, nodwyd yr angen i dalu costau cynyddol, cynyddu incwm, neu gynnal cynaliadwyedd ariannol gan lawer o amgueddfeydd sydd yn ystyried newid fel hyn. Mae'r costau hyn yn cynnwys staffio, ynni a chyfleustodau, cost arddangosfeydd llwyfan, ac incwm a gollwyd yn ystod y pandemig.
- “Mae angen yr incwm arnom, ond rydym yn meddwl mai dyma'r cynnydd olaf y bydd cynulleidfaoedd yn derbyn heb gynnig newydd.”*
“Nid yw codi prisiau hyd yn hyn wedi ymddangos i gael effaith negyddol ar niferoedd ymwelwyr, maent wedi gyrru refeniw cynyddol, ac mae astudiaethau cymaryddion yn awgrymu ein bod yn dal i danbrisiu”.
- 2.59 Unwaith eto, bydd nifer o amgueddfeydd sydd yn ystyried newid yn defnyddio meincnodi ac adolygiadau.
- 2.60 Mae'r nifer fach o amgueddfeydd hynny a oedd naill ai yn bwriadu newid i ddi-dâl, neu dynnu rhai o'u consesiynau, yn amlygu'r argyfwng costau byw fel ffactor allweddol, ac yn rhagweld na fydd rhai segmentau o'u cynulleidfa yn ymweld rhagor heb newidiadau fel hyn.
- 2.61 Yn nhermau effeithiau disgwylieidig unrhyw newidiadau a gynlluniwyd ynghylch safle/

⁵Dylid nodi y cwblhawyd yr arolwg yn ystod Chwefror a Mawrth 2023. Felly, rhoddwyd yr ymatebion hyn yn ystod rhan gynnar eleni.

strategaeth dâl mynediad yn 2023, mae amgueddfeydd yn adrodd eu bod yn gwneud eu gorau glas i gydbwysu unrhyw gynnydd a gynlluniwyd i gadw'r effeithiau negyddol ymysg cynulleidfaoedd mor isel â phosib. Mae un o'r ymatebwyr yn trefnu diwrnod 'Costau Byw' hanner pris, gydag eraill yn bwriadu gwella marchnata a chynnig mwy o ddigwyddiadau i gynnal niferoedd eu hymwelwyr. Mae nifer fach o'r amgueddfeydd a ymatebwyd yn rhagweld lleihad mewn niferoedd ymwelwyr.

“Dylai fod yn weddol fach. Mae'n rhif crwn ac rydym wedi cael rhywfaint o adborth gan ymwelwyr yn dweud bod ein prisiau yn isel ac y byddent yn fodlon talu mwy.”

2.62 Mae llawer o amgueddfeydd yn rhagweld incwm cynyddol, ac ychydig iawn os nad unrhyw newid o gwbl o ran niferoedd ymwelwyr, er bod rhai yn cyfaddef fod hyn yn anodd i'w ragweld. Er enghraifft:

- Mae Bletchley Park yn gobeithio na fydd unrhyw newid i'r cynnydd prisiau a gynlluniwyd ond yn nodi bod cynllunio busnes yn yr amgylchedd presennol yn heriol ac mae'n anodd iawn i ragweld ymateb ymwelwyr.
- Mae Brooklands Museum yn disgwyl cynnydd mewn refeniw ac yn gwyllo am unrhyw leihad yn y bobl sydd yn ychwanegu'r rhodd o 10% i Gift Aid.

2.63 Mae nifer yn ansicr am effeithiau newid safle / strategaeth dâl mynediad yn 2023, ac yn gobeithio cynyddu refeniw a lleihau'r effeithiau negyddol ar gynulleidfaoedd.

2.4 Ystyriaethau eraill ynghylch Codi Tâl

2.64 Archwiliwyd i nifer o faterion ac ystyriaethau eraill o ran codi tâl mynediad mewn amgueddfeydd gan yr arolwg.

2.65 Mae amgueddfeydd yn cyflwyno darlun gymysg ar Gift Aid (gweler Tabl A1.20). Dywedodd un pumed nad oedd Gift Aid yn berthnasol gan nad ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun. Os na chaiff yr ymatebwyr hyn eu cynnwys yn yr ymatebion a ddarparwyd yna mae'r canlyniadau yn dangos nad yw 38% o amgueddfeydd yn hawlio Gift Aid ar gyfer mynediadau, mae 34% yn hawlio Gift Aid ar fynediadau gan ddefnyddio'r cynllun pàs blynyddol, ac mae 28% yn hawlio Gift Aid ar fynediadau gan ddefnyddio'r cynllun 10% ychwanegol.

2.66 Roedd un agwedd ddiddorol a archwiliwyd gan yr arolwg yn perthyn i amgueddfeydd yn casglu gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth ymwelwyr. Mae Tabl A1.21 yn dangos mai dim ond un traean o ymatebwyr a oedd yn adrodd casglu gwybodaeth am y ffactorau hyn. O ystyried bod y canlyniadau hyn yn dangos nad yw dau draean o ymatebwyr yn casglu gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth ymwelwyr, ymchwiliwyd i hyn yn fwy manwl drwy edrych ar yr ymatebion hyn mewn perthynas â safle codi tâl amgueddfeydd.

2.67 Mae Tabl A1.22 yn dangos fod dim 23% o'r rhai nad ydynt yn codi tâl mynediad yn casglu gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth ymwelwyr. Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, mae 37% o'r rhai sydd yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffordd yn casglu gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth ymwelwyr. Er bod amrywiant felly, gyda'r rhai sydd yn codi tâl mynediad yn fwy tebygol o gasglu gwybodaeth fel hyn, dim ond ychydig yn fwy na thraean o ymatebwyr sy'n gwneud hyn (37%).

2.68 Gofynnodd yr arolwg hefyd am nifer o strategaethau codi tâl mynediad eraill.

- Dim ond 2% o ymatebwyr sydd yn adrodd eu bod wedi defnyddio prasio deinamig ar gyfer mynediad, er bod bron i un pumed (19%) wedi ystyried ei ddefnyddio, ond heb eto. Nid yw 80% o ymatebwyr wedi defnyddio nag wedi ystyried defnyddio prasio deinamig (Tabl A1.26).
- Mae bron i un o bob deg o ymatebwyr (9%) wedi defnyddio strategaethau prasio 'Pay What You Can / Pay What You Like', ac mae un pumed arall (19%) wedi ystyried gwneud hyn ond heb eto. Nid yw 72% wedi defnyddio nag ystyried strategaethau prasio 'Pay What You Can / Pay What You Like' (Tabl A1.27).

- Mae tua un o bob deuddeg (8%) o ymatebwyr yn adrodd defnyddio codi tâl ar gyfer mynediad rhithiol neu ar-lein i'r amgueddfa, gydag un pumed arall (20%) wedi ystyried gwneud hyn, ond heb eto. Mae 71% heb ddefnyddio a heb ystyried codi tâl ar gyfer mynediad rhithiol neu ar-lein i'r amgueddfa (Tabl A1.28).
- Ar y llaw arall, mae modelau codi tâl mynediad penodol ar gyfer ymweliadau ysgol yn fwy cyffredin o lawer gyda'r mwyafrif o amgueddfeydd (51%) yn adrodd eu bod wedi gwneud hyn, a 13% arall wedi ystyried gwneud hyn. Mae ychydig dros traean o'r amgueddfeydd a ymatebwyd i'r arolwg yn adrodd nad oeddent wedi nag wedi ystyried defnyddio modelau codi tâl mynediad penodol ar gyfer ymweliadau ysgol (Tabl A1.29).
- Yn ôl un pumed o ymatebwyr, maent wedi defnyddio, neu ystyried defnyddio modelau prisio penodol eraill ar gyfer mynediadau (gweler Tabl A1.30). Mae'r mathau mwyaf cyffredin o fodelau prisio a adroddwyd yn cynnwys, yn nhrefn cyffredinrwydd:
 - **Codi tâl ar gyfer ymweliadau grŵp**
 - “Teithiau wedi eu teilwra ar gyfer grwpiau - rydym yn codi tâl ar gyfer ymweliadau grŵp gan gynnwys teithiau gyda staff curadurrol”
 - “Mae gennym fodelau prisio penodol ar gyfer ymwelwyr mewn grŵp (e.e., U3a, a travel trade)”
 - “Mae ffi mynediad is ar gyfer archebion grŵp”
 - “Codi tâl ar gyfer grwpiau teithio.”
 - “Prisiau grŵp i 10 o oedolion neu fwy”
 - “Mae gennym bolisi codi tâl i ymweliadau grŵp.”
 - “Rydym yn croesawu ymweliadau grŵp am brisiau cytûn”
 - **Codi tâl ar gyfer digwyddiadau gweithdai a gweithgareddau eraill**
 - “Rydym yn codi tâl ar gyfer digwyddiadau a gweithdai, gweithgareddau yn ystod y gwyliau, llogi ystrafell, areithiau a theithiau tywysedig, teithiau cerdded tywysedig, a gweithgareddau grŵp rheolaidd.”
 - “Rydym yn codi tâl ar gyfer digwyddiadau arbennig. Mae gennym ddigwyddiadau di-dâl ond gyda dull gweithredu 'suggested donation'.”
 - “Rydym yn codi tâl ar gyfer digwyddiadau penodol â thocyn, fel areithiau o gwmpas yr oriel a reolir gan ein tîm digwyddiadau.”
 - “Mae gennym amrywiaeth o strwythurau prisio ar gyfer digwyddiadau, rhai yn fforddiadwy ac wedi eu trefnu ar gyfer cynulleidfa dorfol, ond hefyd yn cynnwys cipolwg preifat ar drysorion y casgliad a theithiau preifat am bris sylweddol uwch.”
 - **Rhoddion penodol, mynediad di-dâl, neu fodelau aelodaeth i ysgolion**
 - “Rydym hefyd yn cynnig aelodaeth addysgiadol ar gyfer ysgolion a grwpiau addysg”
 - “Mae ymweliadau ysgol bob amser yn ddi-dâl, oherwydd heb hyn ni fydd ysgolion yn gallu fforddio ymweld â ni”
 - “Rydym yn bwriadu gofyn am roddion gan ysgolion gan fod llawer yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael ganddynt. Rydym yn ceisio aros yn hyblyg ac yn bachu cyfle lle bo'n bosib!”
 - **Disgowntiau ar gyfer archebu ar-lein / archebu o flaen llaw **
 - “Rydym yn edrych ar gyflwyno disgownt tâl mynediad i bobl sy'n archebu ar-lein o flaen llaw.”
 - “Ceir disgowntiau ar gyfer archebu ar-lein o flaen llaw.”
 - “Ceir disgowntiau ar gyfer archebu o flaen llaw.”
 - “Mae ffioedd archebu cynnar a munud olaf.”



Meincnodi
lefelau prisio
mynediad
amgueddfeydd

Meincnodi lefelau prasio mynediad amgueddfeydd

3.1 Cyflwyniad i Adran 3

- 3.1 Mae'r adran hon yn edrych ar brisiau mynediad presennol amgueddfeydd, ac yn cyflwyno amrywiaeth o feincnodau pris mynediad i amgueddfeydd yn y DU ar gyfer mathau allweddol o docyn. Cyflwynir y canlyniadau cyffredinol yn ogystal â'r meincnodau pris mynediad i amgueddfeydd wedi eu dadgyfino yn ôl nodweddion allweddol amgueddfeydd a ffactorau cydestunol perthnasol.
- 3.2 Nodwch os gwelwch yn dda, y cynhaliwyd yr arolwg ym mis Chwefror-Mawrth 2023, ac felly mae'r data meincnodi yn dod o bwynt hwnnw'r flwyddyn. Mae'n bosib y bydd prisiau mynediad rhai amgueddfeydd wedi newid ers hynny. Hefyd, fel yr eglurwyd yn flaenorol, mae'r tablau y cyfeirir atynt trwy gydol yr adran hon yn ymddangos yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn, ac mae'r siartiau a thablau isod yn fersiynau cryno o'r un canlyniadau

3.2 Meincnodau Cyffredinol Prasio Mynediad Amgueddfeydd

- 3.3 Yn nhermau prisiau mynediad cyffredinol ar gyfartaledd, mae Tabl A1.31 yn Atodiad 1 ac a ailroddir isod yn dangos y canlyniadau ynghylch prasio o'r arolwg i'r amgueddfeydd hynny sydd yn codi tâl mynediad.

	Cymedr (£)	Canolrif (£)	Gwerth is (£)	Gwerth uwch (£)	Cyfrif
Oedolyn	8.99	7.60	2.00	45.00	210
Consesiwn	7.63	6.60	0	26.00	126
Plentyn(hÿn)	3.64	3.00	0	18.00	204
Plentyn (iau)	0.70	0	0	8.50	198
Teulu	26.46	24.00	7.00	77.00	105

Ffynhonnell: Dadansoddiad canlyniadau arolwg gan DC Research/Durnin Research, Medi 2023 (n=210)

3.4 Mae'r canlyniadau yn dangos:

- Y pris ar gyfartaledd (canolrifol⁶) am bris tocyn oedolyn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £7.60 gydag amrywiaeth o brisiau a nodir o dan y cyfartaledd – o £2 i £45.
- Y pris ar gyfartaledd (canolrifol) ar gyfer tocyn consesiwn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £6.60 gydag amrywiaeth o brisiau a nodir o dan y cyfartaledd – o £0 i £26.
- Y pris ar gyfartaledd (canolrifol) ar gyfer tocyn plentyn⁷ ar gyfer mynediad cyffredinol yw £0, ac eto mae amrywiaeth o brisiau yn ategu hyn – o ddi-dâl i £8.50.
- Y pris ar gyfartaledd (canolrifol) ar gyfer tocyn plentyn hÿn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £3, ac eto mae amrywiaeth o brisiau y tu ôl i hyn – o ddi-dâl i £18.
- Y pris ar gyfartaledd (canolrifol) ar gyfer tocyn teulu safonol ar gyfer mynediad cyffredinol yw £24 ac mae'r amrywiaeth eang o briaisu o dan hyn yn amrywio o £7 i £77.

⁶Y cyfartaledd canolrifol yw'r rhif yng nghanol set o ddata, pan fod y data wedi'u hysgrifennu mewn trefn maint esgynnol. Mae'n well i ddefnyddio'r gwerthoedd canolrifol pan fod dosbarthiad y gwerthoedd data wedi eu gorbwyso neu pan fod allanolynnau clir – fel y mae'r gwerthoedd is ac uwch yn dangos yw'r achos yma. Felly, tra bod y tablau yn Atodiad 1 yn darparu'r gwerthoedd cymedr a chanolrifol, y gwerthoedd canolrifol a adroddir yn yr Adran hon.

⁷Mae prisiau tocyn plentyn wedi eu gwahanu yn docynnau plant hÿn a iau gan fod llawer o amgueddfeydd yn cynnig prisiau gwahanol yn dibynnu ar oedran y plentyn/plant. Tra bod yr oedran sy'n diffinio hÿn neu iau yn amrywio rhwng amgueddfeydd, mae'n ddefnyddio i'r canlyniadau hyn gael eu cyflwyno ar wahân, gan eu bod wedi eu gwahaniaethu.

- 3.5 Mae cymharu'r canlyniadau hyn â ffynonellau eraill yn dangos fod y canlyniadau yn arddangos cysondeb cyffredinol gyda thystiolaeth arall. Er enghraifft, adroddwyd Arolwg Amgueddfeydd Blynyddol 2022⁸ mai pris mynediad canolrifol oedolyn oedd £6.50 a phris mynediad canolrifol plentyn oedd £3. Mae'r data a ddarparwyd gan yr Art Fund yn benodol ar gyfer yr ymchwil hon yn dangos pris mynediad safonol canolrifol o £8.10.
- 3.6 Y tu hwnt i'r mathau allweddol hyn o docyn (oedolyn, consesiwn, pletnyn (hŷn a iau) a theulu) a adroddwyd yn yr adran hon, mae llawer o amgueddfeydd yn cynnig amrywiaeth eang o fathau o docyn ac amrywiaeth eang o brisiau mynediad â disgownt ar gyfer mathau penodol o unigolion neu grwpiau. Gall hyn gynnwys y canlynol (a gyflwynir yn nhrefn pa mor gyffredin y caiff y mecanweithiau pris ychwanegol hyn eu cynnig):
- Mynediad di-dâl i ofalwyr. Mae hyn bron i fod yn gynnig cyffredinol gan amgueddfeydd.
 - Mynediad â disgownt neu ddi-dâl i Ffrindiau'r amgueddfa neu bobl sydd yn rhan o'r cynllun aelodaeth blynyddol.
 - Disgowntiau ar gyfer ymweliadau grŵp (gweler Adran 2.4 uchod).
 - Mynediad â disgownt neu ddi-dâl ar gyfer Museums Association, Art Fund, a chynlluniau aelodaeth cenedlaethol eraill (e.e., Historic Houses).
 - Disgowntiau am archebu ar-lein o flaen llaw – rhwng 10% a 25% ar gyfer y disgowntiau hyn. Fodd bynnag, ambell waith (ddim yn gyffredin o gwbl), mae amgueddfeydd sydd yn codi ffi archebu ar gyfer archebu ar-lein.
 - Disgowntiau penodol eraill – e.e., mae amgueddfeydd milwrol fel arfer yn cynnig isgowntiau i staff milwrol presennol neu gyn-staff; disgowntiau i fyfyrwyr; disgownt golau glas (h.y., disgownt i'r gwasanaethau argyfwng, y GIG, y sector gofal cymdeithasol a'r lluoedd arfog) – sydd fel arfer rhwng 10% a 20%; consesiynau ar gyfer oedolion iau (e.e., rhai o dan 25 neu 30 oed).
 - Mynediad di-dâl i bobl leol. Er nad yw hyn yn gyffredin (llai na 1 o bob 15 ar gyfartaledd) mae rhai amgueddfeydd yn cynnig mynediad di-dâl i bobl leol.
 - Cynnig mynediad di-dâl i blentyn yng nghwmni oedolyn sydd yn talu pris mynediad.
 - Cynnig pris mynediad â disgownt i amgueddfeydd cysylltiedig wrth ddangos tocyn mynediad.
 - Er nad yw hyn y gyffredin, mae rhai amgueddfeydd yn cynnig prisiau amrywiol ar gyfer tymhorau gwahanol (e.e., haf/gaeaf) neu ar gyfer diwrnodau gwahanol (yn ystod yr wythnos/penwythnos).

⁸<https://southwestmuseums.org.uk/annual-museum-survey-archive>

3.3 Meincnodau Priso Mynediad Amgueddfeydd – Yn ôl Nodweddion Gwahanol (Math, Daeryddiaeth, Cyd-destun Lleol)

3.7 Mae edrych ar y meincnodau priso hyn mewn perthynas â nodweddion a ffactorau amgueddfeydd eraill yn amlygu nifer o ganfyddiadau defnyddiol.



- Wrth ystyried daeryddiaeth (ar y lefel genedlaethol) mae Tabl A1.32 yn dangos fod rhywfaint o amrywiaeth mewn prisiau mynediad ar gyfartaledd – y pris canolrifol i oedolyn yn Lloegr a'r Alban oedd £8, ond £6.50 i amgueddfeydd yng Nghymru. Ailadroddir y patrwm hwn i rai o'r mathau eraill o docyn (consesiwn a theulu), ond nid i docynnau plant, ble mae cyfwerthedd prisiau ar draws y cenhedloedd⁹.
- O edrych ar ddaeryddiaethau o fewn Lloegr, mae Tabl A1.33 yn dangos, yn nhermau prisiau canolrifol, fod amgueddfeydd yng Ngogledd Lloegr yn adrodd pris is ar gyfartaledd nag amgueddfeydd yn Nghanolbarth neu Dde Lloegr i oedolion (£7 o'i gymharu ag £8.80 ac £8) a chonsesiynau (£5 o'i gymharu â £6.88 a £7), ond ychydig iawn o amrywiaeth sydd yn ôl y daeryddiaethau hyn i blant neu i brisiau mynediad teulu.



- Wrth edrych yn fwy manwl ar y rhanbarthau o fewn De Lloegr, mae patrwm yn dod i'r amlwg o amgueddfeydd yn y De Orllewin sydd yn adrodd prisiau mynediad canolrifol is o'u cymharu â Llundain neu'r De Dwyrain. Er enghraifft, y pris canolrifol i oedolion oedd: £10 i Lundain, £8 i'r De Dwyrain, a £5 i'r De Orllewin. Mae patrymau tebyg yn dod i'r amlwg i gonsesiynau (£8 yn Llundain, £7 yn y De Dwyrain a £4.25 yn y De Orllewin), plant hŷn (£6, £3, a £0 yn ôl eu trefn) a thocynnau teulu (£23.75, £24, a £20). Mae plant iau ar gyfartaledd yn ddi-dâl ymhob un o'r tri rhanbarth.
- Yn nhermau math yr amgueddfa, mae'r canlyniadau (gweler Tabl A1.35) yn dangos fod ychydig iawn o amrywiaeth yn y prisiau canolrifol yn ôl y math o amgueddfa ar gyfer oedolion, ond mae rhywfaint o amrywiaeth o ran mathau eraill o docyn. O ystyried y gyfran fawr o ymatebwyr sydd yn amgueddfeydd annibynnol, roedd y canlyniadau yn cymharu amgueddfeydd annibynnol yn erbyn pob math arall ac yn dangos pris canolrifol oedolyn o £7.60 i rai annibynnol, a £7.75 i bob math arall o amgueddfa, £7 a £6 i gonsesiynau, £2.98 a £4.50 i blant hŷn, a £25 a £22 i rai teulu. Mae plant iau ar gyfartaledd, yn ddi-dâl i bob math o amgueddfa.

⁹ Nid oes unrhyw ddata ar feincnodau priso mynediad i amgueddfeydd yng Ngogledd Iwerddon o'r arolwg oherwydd y nifer isel iawn o ymatebion gan amgueddfeydd yng Ngogledd Iwerddon.

- Mae hyn yn dangos fod ychydig iawn o amrywiaeth yn y prisiau mynediad canolrifol yn ôl y math o amgueddfa yn gyffredinol (Tabl A1.35), fodd bynnag mae'r tebygolrwydd o godi tâl ai peidio (gweler Tabl A1.4 yn gynharach yn Adran 2) yn amrywio'n fwy yn ôl math o amgueddfa. Felly, er nad yw prisiau yn amrywio llawer yn ôl math yr amgueddfa, mae'r tueddiad i godi tâl yn amrywio.
- Mae edrych ar y lefel o gyllido craidd i amgueddfeydd yn dangos nad oes unrhyw amrywiaeth yn y pris canolrifol i oedolyn rhwng y prif categorïau o gyllido craidd (Tabl A1.36), gyda phob safle cyllido craidd (dim cyllido craidd, unrhyw lefel o gyllido craidd, cyllido craidd uwch (50%+) neu gyllido craidd is (0% i 50%) yn adrodd prisiau canolrifol o £8. Fodd bynnag, fel gyda'r math o amgueddfa, mae'r tueddiad i godi tâl ai peidio yn amrywio yn ôl safle cyllido craidd (gweler Tabl A1.6).
- Mae asesu prisiau mynediad canolrifol yn ôl y lefel o gystadleuaeth i ymwelwyr yn yr ardal leol ble mae'r amgueddfa yn seiliedig yn dangos (Tabl A1.37) fod prisiau ar y cyfan yn is mewn ardaloedd sydd yn adrodd nad yw'n gystadleuol o gwbl i ddenu ymwelwyr. Y tu hwnt i hyn, mae unrhyw lefel o gystadleuaeth (ychydig, cymedrol neu gystadleuol iawn) yn dangos prisiau canolrifol uwch yn glir yn berthynol. Mae hyn yn awgrymu, i'r amgueddfeydd hynny sydd yn wynebu cystadleuaeth leol i ymwelwyr, nid yw cystadlu o ran pris yn ymddangos i fod yn strategaeth gyffredin – rydym yn edrych ar y mater hwn eto yn Adran 5 yr adroddiad hwn.



- Nid oes syndod bod y canlyniadau yn dangos (Tabl A1.38) fod prisiau mynediad canolrifol yn uwch i'r amgueddfeydd hynny sydd yn adrodd eu bod yn fwy arwyddocaol i economi ymwelwyr yr ardal leol. Er enghraifft, mae prisiau oedolyn yn ôl pwysigrwydd yr amgueddfa yn dangos (£4 – ddim yn bwysig o gwbl; £5 – o fân bwysigrwydd; £7.50 – atyniad gweddol arwyddocaol; £7.50 – un o nifer o atyniadau arwyddocaol; £12 – atyniad allweddol).
- Pan gaiff y prisiau mynediad canolrifol eu hystyried mewn perthynas â maint yr amgueddfa (gan ddefnyddio niferoedd ymwelwyr 2022 i gategoreiddio maint), mae'r canlyniadau (Tabl A1.39) yn dangos ar gyfer prisiau oedolyn, po fwyaf yw'r amgueddfa, y mwyaf yw'r pris mynediad (£6.75 i amgueddfeydd gyda hyd at 20,000 o ymweliadau; £12 i amgueddfeydd gyda rhwng 20,000 a 50,000 o ymweliadau; £13.50 i amgueddfeydd gyda rhwng 50,000 a 100,000 o ymweliadau, ac £19.80 i amgueddfeydd gyda mwy na 100,000 o ymweliadau. Mae'r un patrwm yn dod i'r amlwg i docynnau consesiwn a theulu, ac hefyd i blant hŷn gyda phrisiau yn lefelu i amgueddfeydd cymedrol/mawr. Mae plant iau ar y cyfan yn ddi-dâl ymhob math o amgueddfa. Mae'r canlyniadau hyn yn cydfynd â chasgliadau dadansoddiad arbennig o Arolwg Amgueddfeydd Blynyddol 2022¹⁰ a oedd yn dangos yr un berthynas rhwng maint amgueddfa a phris mynediad safonol oedolyn canolrif.
- Yn olaf, o edrych ar brisiau mynediad yn ôl y gyfran o ymwelwyr lleol i'r amgueddfa (ble y caiff amgueddfeydd eu categorio yn ôl pa un a yw mwy neu lai o 50% o'u hymwelwyr yn lleol), mae'r canlyniadau (Tabl A1.40 a chrynodeb isod) yn dangos fod pris canolrifol uwch gan yr amgueddfeydd hynny sydd yn adrodd fod 50%+ o'u hymwelwyr yn lleol o'u cymharu â'r rhai ble mae pobl leol yn cyfrif am lai na 50% o'u hymwelwyr.

Crynodeb o Dabl A1.40: Canlyniadau Meincnodi Priso Mynediad Amgueddfeydd yn ôl y Gyfran o Ymwelwyr Lleol i'r Amgueddfa

50%+ pobl leol	Oedolyn	Consesiwn	Plentyn (hyn)	Plentyn (iau)	Teulu
Canolrif (£)	9.00	8.50	3.25	0.00	25.00
Isafswm (£)	2.50	3.00	0.00	0.00	10.00
Uchafswm (£)	28.50	26.00	18.00	8.50	77.00
Cyfrif	63	40	62	61	34
Llai na 50% yn bobl leol	Oedolyn	Consesiwn	Plentyn (hyn)	Plentyn (iau)	Teulu
Canolrif (£)	7.00	6.00	2.50	0.00	24.00
Isafswm (£)	2.00	1.30	0.00	0.00	8.00
Uchafswm (£)	25.50	23.00	17.00	5.00	68.50
Cyfrif	67	38	65	62	33

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ganlyniadau arolwg DC Research/Durnin Research, Medi 2023 (n=130)

¹⁰ Darparwyd data wedi'u teilwra o Arolwg Amgueddfeydd Blynyddol 2022 (<https://southwestmuseums.org.uk/annual-museum-survey-archive/>) i'r tîm astudio ar gyfer yr ymchwil hon gan South West Museum Development. Rydym yn gwerthfawrogi eu cymorth wrth ddarparu'r data hyn i hysbysu'r ymchwil hon yn fawr.



Yr effaith
o newid
strategaethau
codi tâl
mynediad



Yr effaith o newid strategaethau codi tâl mynediad

4.1 Cyflwyniad i Adran 4

- 4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno casgliadau'r ymchwil ar effeithiau strategaethau codi tâl mynediad gwahanol, gan ganolbwyntio ar yr effaith o amgueddfeydd yn newid eu strategaeth brisio mynediad. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y pedwar newid mwyaf cyffredin – cynnydd mewn prisiau mynediad, cyflwyno mathau newydd o docynnau, symud o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl, a symud o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad.


4.2 Yr Effaith o Newidiadau i Godi Tâl Mynediad

- 4.2 Fel y nodwyd yn Adran 2 yr adroddiad hwn, adroddwyd 50% o ymatebwyr nad oeddent wedi ystyried newid eu safle codi tâl mynediad yn ystod unrhyw rai o'r cyfnodau o amser penodedig (2018 a 2019, 2020 a 2021, neu 2022) – gweler Tabl A1.13.
- 4.3 I'r amgueddfeydd hynny a oedd yn newid eu safle codi tâl mynediad, roedd canlyniadau'r arolwg (gweler Tablau A1.41 i A1.45 yn ogystal â Thabl A1.14 a drafodir yn Adran 2) yn dangos mai'r math mwyaf cyffredin o bell ffordd o newid i strategaethau codi tâl amgueddfeydd oedd cynnydd mewn costau mynediad (adroddwyd y newid hwn gan 114 o amgueddfeydd - 70% o'r rhai a ymatebwyd i'r cwestiwn hwn). Yr ail newid mwyaf cyffredin oedd cyflwyno math(au) newydd o docyn (adroddwyd y newid hwn gan 49 o amgueddfeydd - 30% o'r rhai a ymatebwyd i'r cwestiwn hwn).
- 4.4 Mae gwneud newid mwy sylweddol (o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl, neu o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad) wedi bod yn llai cyffredin, ond wedi digwydd – roedd 29 amgueddfa (18%) yn adrodd eu bod yn symud o godi tâl i fynediad di-dâl tra bod 18 amgueddfa (11%) yn adrodd symud o fynediad di-dâl i godi tâl.
- 4.5 Ystyrir yr effeithiau a adroddwyd gan amgueddfeydd ar gyfer pob un o'r mathau hyn o newidiadau i strategaethau prisio mynediad isod – gyda threfn eu cyflwyno yn adlewyrchu pa mor gyffredin y mae pob newid wedi bod dros y blynyddoedd diweddar i amgueddfeydd a ymatebwyd i'r arolwg.

4.3 Cynnyddu Prisiau Mynediad


“Peidiwch â thanwerthu, a pheidiwch â disgwontio”

“Rhaid cadw i fyny â chwyddiant”



- 4.6 Roedd amgueddfeydd a oedd yn cynyddu eu prisiau mynediad yn adrodd amrywiaeth o effeithiau. Yr effaith mwyaf cadarnhaol yw bod cyfanswm yr incwm o fynediadau wedi cynyddu, gyda rhai hyd yn oed yn adrodd canlyniadau cadarnhaol yn nhermau nifer yr ymwelwyr a gwario eilaidd ar y safle.
- 4.7 Adroddwyd fod ychydig iawn o effaith negyddol gan lawer o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisiau. Roedd rhai yn meddwl eu bod wedi tanbrisio am amser hir. Er enghraifft, adroddodd Brooklands Museum eu bod wedi colli lefel arwyddocaol o incwm posib yn y gorffennol drwy ofyn prisiau rhy isel, ac felly wedi cynyddu eu prisiau yn gyson, ac yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf heb unrhyw effeithiau negyddol.
- 4.8 Roedd amgueddfeydd a oedd yn adrodd nad oedd unrhyw effeithiau negyddol yn aml yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gyfathrebu gwerth am arian yn glir. Er enghraifft, yn ôl Ymddiriedolaeth Bletchley Park, roedd ymwelwyr yn gyffredinol yn derbyn codiadau pris ar yr amod fod y gwerth yn glir, a thra bod ymwelwyr o bosib yn teimlo fod prisiau yn ddrud yn gychwynnol, mae'r canfyddiadau hyn yn newid wrth iddynt weld gwerth y cynnig. Yn debyg, pwysleiswyd y pwysigrwydd o fuddsoddi mewn gwerth am arian yn unol â chodiadau pris gan y Black Country Living Museum.
- 4.9 Cyflwynwyd tâl mynediad a chynnydd pris mynediad dilynol gan Trimontium Museum yn dilyn gwaith adnewyddu mawr, gan bwysleisio'r pwysigrwydd o feincnodi â chystadleuwyr perthnasol eraill (h.y., safleoedd Rhufeinig yn achos Trimontium) yn ogystal â rhoi ystyriaeth ddigonol i'r amgylchiadau economaidd presennol a sicrhau nad ydych yn “*prisió'ch hun allan o bocedi pobl*”. Mae hyn yn arbennig o bwysig i amgueddfeydd mewn cymunedau bach, ac mae'r defnydd o gymhellion fel diwrnodau mynediad di-dâl, diwrnodau cymuned a.y.b. yn rhan bwysig o'r cynnig.
- 4.10 Yn ôl un ymgynghorai, nid oedd nerfusrwydd mewnol staff ynghylch sensitifrwydd pris yn golygu effeithiau negyddol. Amlygwyd fod nerfusrwydd fel hyn, ac ofnusrwydd ambell waith, yn aml yn arwain at brisio a oedd un tanbrisio'r amgueddfa.
- 4.11 Nid yw pryder am sensitifrwydd pris yn ymddangos i fod yn fater staff yn unig, gyda rhai amgueddfeydd yn adrodd pryderon a godwyd gan wirfoddolwyr, a rhai eraill yn amlygu amharodrwydd gan Ymddiriedolwyr pan gyflwynwyd argymhellion i gynyddu prisiau gan staff. Awgrymodd un ymgynghorai bod y nerfusrwydd hwn yn gysylltiedig â phrofiad cynllunio ariannol a busnes.


4.4 Cyflwyno Math(au) Newydd o Docyn Mynediad



- 4.12 Yr effaith mwyaf cadarnahol o fathau newydd o docyn yw cynnydd yn y cyfanswm o incwm mynediadau, ac yna nifer yr ymwelwyr, a demograffeg ac amrywiaeth yr ymwelwyr. Roedd llawer o amgueddfeydd yn adrodd nad oedd unrhyw newid o ganlyniad i newid mathau o docyn.
- 4.13 Mae Ironbridge Gorge Museum Trust yn edrych yn weithredol ar symleiddio'i mathau o docyn, er mwyn gwneud trafodiadau yn haws wrth y mynediad, a datblygu dull gweithredu tocynnau aelodaeth debyd uniongyrchol â chymhelliant er mwyn cefnogi ymgysylltiad gwell ar draws ei 10 safle. Adroddwyd hefyd gan Ironbridge fod rhai tocynnau consesiwn yn cael eu dileu yn ystod y pandemig, gyda thocynnau yn cael eu dosbarthu fel oedolyn, plentyn, myfyriwr a gofalwr craidd. Nid oedd unrhyw adroddiadau gan dîmau blaen y tŷ o unrhyw broblemau gyda'r newid hwn.
- 4.14 Roedd Dinefwr yn codi tâl mynediad cyn y pandemig, ac yn arfer gweithredu cynnydd blynyddol mewn prisio. Fodd bynnag, ar ôl y pandemig, newidwyd y strwythur prisio yn gyfan gwbl – gan gyflwyno tâl ar wahân i'r maes parcio a symud mynediad y person i'r tŷ yn unig. Mae'r newid hwn yn y polisi prisio a'r cyflwyniad o fathau newydd o docyn wedi cael nifer o effeithiau cadarnhaol. Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n sylweddol bob blwyddyn ers y newid, ac erbyn hyn mae ymwelwyr mwy amrwyiol o lawer yn dod i Ddinefwr. Mae rhoddion wedi cynyddu (ond mae hyn o ganlyniad i ffactorau eraill), ac erbyn hyn maent yn derbyn incwm o'r maes parcio yn ogystal â mynediad i'r tŷ.
- 4.15 Newidwyd rhai o bolisi codi tâl mynediad Llety'r Barnwr – gan gynyddu pris tocyn oedolyn, tynnu'r pris consesiwn ar gyfer pobl hŷn, darparu mwy o lefelau o docynnau consesiwn a newid pris y tocyn teulu. Bwriad hyn i gyd oedd “*gwneud tocynnau yn fwy teg i bobl sydd o bosib angen costau is*” yn ogystal â chydabod “*y gwahaniaeth mewn grwpiau teulu*” ac i “*gynyddu incwm yr amgueddfa i helpu i dalu costau cynyddol*”. Roedd y broses hon yn cynnwys meincnodi prisiau Llety'r Barnwr – yn lleol a gydag amgueddfeydd/atyniadau tebyg mewn lleoliadau eraill yn y DU.
- 4.16 Tra bod yr amgueddfa wedi nodi bod rhai ymwelwyr yn dal i ofyn am gonsesiynau, gallent egluro pam fod y newid wedi digwydd – gan ei gysylltu'n glir â rhesymeg costau byw. Mae'r newid hefyd wedi helpu i Llety'r Barnwr gryfhau ei pherthynas â'r gymuned leol – a “*mae pobl leol yn awr yn gweld gwerth Llety'r Barnwr o gymharu â chyn Covid*”.

- 4.17 Nodwyd cynnydd yn y galw am basys blynyddol gan rai amgueddfeydd oherwydd yr argyfwng costau byw. Gellir ystyried hyn fel ymwelwyr yn ceisio cael rhagor o werth o’u hymweliadau.
- 4.18 Newidwyd fformat eu tocyn teulu i ddau oedolyn a hyd at pedwar o blant gan The Historic Dockyard Chatham, gan roi gwerth gwell ac mae hyn wedi bod yn boblogaidd iawn.
- 4.19 Avoncroft Museum of Historic Buildings oedd un o nifer o amgueddfeydd a oedd yn gostwng ei phrisiau yn ystod y pandemig i adlewyrchu cynnig llai. Ar ôl y pandemig, dychwelwyd y prisiau i’r lefelau blaenorol, ond penderfynwyd gostwng pris eu tocynnau plant i ychydig dros hanner y pris o docyn oedolyn.
- 4.20 Mae nifer o amgueddfeydd sy’n ymgynghoreion yn cynnal penwythnosau digwyddiad â thocynnau, ac mae’r prisiau ar gyfer y rhain yn uwch gan fod mwy o lawer yn cael ei gynnig.

4.5 Symud o Godi Tâl Mynediad i Fynediad Di-dâl




“Sicrhau mynediad di-dâl i’r bobl hynny sydd ei angen fwyaf”

- 4.21 Effaith mwyaf cadarnhaol y newid hwn yw ar niferoedd ymwelwyr, yna ar ddemograffeg ac amrywiaeth yr ymwelwyr, ac yna ar roddion ar y safle, gwario eilaidd ac ar y berthynas â’r gymuned leol. Yn naturiol, yr effaith mwyaf negyddol yw ynghylch incwm mynediadau.
- 4.22 Roedd Kirklees Museums & Galleries yn arfer codi tâl mynediad i Oakwell Hall ond newidwyd y strategaeth brisio i fynediad di-dâl o ganlyniad i’r pandemig, er mwyn annog ymwelwyr i ddechre ac i ddarparu pobl leol â mynediad di-dâl i’r Neuadd. Mae mynediad di-dâl wedi’i gynnal am y tro, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr sydd wedi bod yn ganlyniad i hyn, yn ogystal â manteision ehangach strategaeth fel hon i’r gwasanaeth yn nhermau mynd i’r afael ag anghenion y gymuned a chael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau. Mae Kirklees Museums & Galleries yn adrodd fod y symudiad i fynediad di-dâl wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar niferoedd eu hymwelwyr (maent erbyn hyn yn fwy na thair gwaith beth oeddent cyn y pandemig) yn ogystal ag amrywiaeth yr ymwelwyr, a nifer yr ymwelwyr lleol yn ogystal â’r adborth gan y gymuned leol. Er bod incwm mynediadau yn naturiol wedi gostwng, mae’r gwasanaeth yn edrych ar gynhyrchu incwm mewn ffyrdd eraill (gan gynnwys drwy roddion sydd wedi cynyddu’n sylweddol yn barod).
- 4.23 Roedd Charles Dickens Museum yn sylwi teimlad annwyl tuag at yr amgueddfa yn yr ardal leol ac mae’n adeiladu ar hyn trwy ddatblygu partneriaethau i gryfhau ei pherthynas â chynulleidfaoedd lleol. Mae hyn yn cynnwys pecynnau partneriaeth mynediad di-dâl a phrosiectau wedi’u targedu ar gyfer grwpiau ieuenctid.

- 4.24 Mae'r National Civil War Centre & Newark Museum wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i ymgysylltu'n well gyda chynulleidfaeol lleol, gan gynnwys disgowntiau a chynigion hanner pris. Roedd hyn yn dilyn ymchwil a oedd yn awgrymu bod llai na 20% o'u hymwelwyr yn bobl leol, a chafwyd cynllun peilot o fynediad hanner pris i breswylwyr, a mynediad di-dâl iddynt, yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn wedi gwella ymgysylltiad lleol, ac mae Cyngor Rhanbarthol Newark a Sherwood yn edrych ar weithredu mynediad di-dâl i breswylwyr ar sail cod post.
- 4.25 Mae Heritage Centre Bellingham wedi symud o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl – gyda'r strategaeth newydd yn cael ei galw'n 'pay what you feel'. Yr arwyddion cynnar yw bod y newid strategaeth wedi bod yn gadarnhaol – gyda'r Heritage Centre yn derbyn mwy o roddion yn ystod y cyfnod prawf nad oeddent gyda'r strategaeth godi tâl mynediad flaenorol. Roedd rhai o'r manteision a nodwyd gan y Ganolfan yn cynnwys bod pobl ag incwm gwario yn rhoi mwy mewn rhoddion na swm y tâl mynediad y byddent wedi gorfod talu (gan gynnwys y bobl hynny a fydd wedi manteisio o docyn consesiwn dan y model codi pris).
- 4.26 Mae York Art Gallery yn codi tâl mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig, ar ôl codi tâl yn flaenorol ar gyfer mynediad cyffredinol a symud i fynediad di-dâl ar gyfer y casgliadau parhaol. Yn ystod y pandemig, treialwyd amrywiaeth o fodelau prisio gan York Art Gallery gan gynnwys rhoddion yn unig, 'pay as you feel', a chodi tâl ar gyfer arddangosfeydd penodol ond cadw mynediad yn ddi-dâl i'r casgliadau parhaol. Gyrrwyd y newid i ffwrdd o godi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol gan y dymuniad i gynyddu nifer yr ymweliadau a chynyddu amrywiaeth y gynulleidfa "*i wneud celf yn fwy hygyrch*".
- 4.27 Mae'r newid wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr, a oedd yn "*cynyddu o 50% wrth i ni symud at fynediad di-dâl ar gyfer y casgliad parhaol a chodi tâl am yr orielau arddangos*", ac, er bod ymchwil yn dal i gael ei chynnal, mae arwyddion eu bod yn "*cyrraedd amrywiaeth ehangach o ran demograffeg*". I ychwanegu at hyn, gwelwyd effaith gadarnhaol ar eu perthynas â chyllidwyr hefyd. Fodd bynnag, mae incwm wedi gostwng yn sylweddol, nid oes unrhyw newid o ran gwario eilaidd ar y safle, ac mae amser aros wedi lleihau i'r bobl hynny nad ydyny yn talu am fynediad. Mae York Art Gallery hefyd wedi casglu, yn nhermau codi tâl am arddangosfeydd, fod "*ansawdd/poblyddiaeth yr arddangosfa yn allweddol i'r lefelau incwm o ran mynediad a gwario eilaidd.*"
- 4.28 Wrth adlewyrchu ar y cyfnod pan gynigwyd mynediad di-dâl (oherwydd y pandemig), nodwyd y canlynol gan y Library of Innerpefferay "*gyda mynediad 'drwy rodd' neu 'pay what you will' (yn ystod tymor tawel) roedd yr incwm o roddion yn arwyddocaol*". Ystyriwyd cadw'r polisi rhodd/'pay what you like' – yn enwedig oherwydd fod ganddo "*gysylltiadau clir i'n pwrpas/egwyddorion sefydlu*" ond nid oedd rhoddion yn cyrraedd y lefelau o incwm a gafwyd gan fynediadau, felly mae codi tâl (gweler isod), ond gyda'r cynnig o fis o fynediad di-dâl bob mis Mawrth yn gweithio'n dda.
- 4.29 Mae Rutland County Museum yn ddi-dâl am fynediad ond yn edrych yn weithredol ar gyfleoedd i gynhyrchu mwy o incwm, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth i fanteisio ar ddarganfyddiadau lleol diweddar.
- 4.30 Mae Biggar Museum yn cynnig mynediad di-dâl i bobl leol (o fewn ardal cod post penodol) ond yn newid mynediad i ymwelwyr eraill. Maent wedi profi pobl o'r tu allan i'r ardal leol yn cerdded allan wrth ddarganfod fod tâl mynediad, ac wedi sylweddoli y gall penderfynu ynghylch codi tâl mynediad fod yn amgylchedd heriol. Mae gwersi ynghylch eu dulliau gweithredu o ran prisio yn cynnwys bod yn glir iawn am y cynnig i bobl leol (gan gynnwys am faint o amser y bydd y cynnig yn parhau), gan sicrhau eich bod yn "*pwysleisio*" statws elusennol yr amgueddfa, a sicrhau bod hysbysebu'r prisio yn effeithol fel "*nad yw'n atal pobl rhag ddod trwy'r drws*".

4.6 Symud o Fynediad Di-dâl i Godi Tâl Mynediad



- 4.31 Mae amgueddfeydd sydd yn symud o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad yn amlygu'r effaith mwyaf cadarnhaol fel cynnydd yn y cyfanswm o incwm mynediadau, ac yna effeithiau cadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr ac amser aros yr ymwelwyr. Y tu hwnt i hyn, ni amlygwyd unrhyw newid gan lawer o amgueddfeydd yn nhermau'r effeithiau. Fodd bynnag, amlygwyd agweddau negyddol o ran nifer yr ymwelwyr a'r lefel o roddion digymell ar y safle – er bod rhai eraill yn adrodd effeithiau cadarnhaol ar y ffactorau hyn.
- 4.32 Roedd newid o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad yn dod â nifer o fanteision i'r National Football Museum gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn incwm (mwy na thair gwaith yr incwm blaenorol). Roedd amser aros ar gyfartaledd yn cynyddu'n sylweddol, roedd cwmp mewn ymweliadau anfwriadol, ac ni welwyd unrhyw effaith ar wario eilaidd. Nid oedd unrhyw syndod fod y newid hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, a lleihad mawr mewn rhoddion.
- 4.33 Wrth adlewyrchu ar y newid o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad, nodwyd gan y National Football Museum y bydd "nifer yr ymwelwyr yn gostwng, ond bydd ymgysylltiad ac amserau aros yn cynyddu", ac yn ogystal â hyn, mae incwm wedi "cynyddu a dod yn fwy rhagweladwy a dibynadwy o lawer". Roedd yr Amgueddfa yn amlygu eu bod yn "creu mecanwaith i adael i bobl o'r ardal leol ymweld yn ddi-dâl", a hefyd "ar ôl i ni ddechrau codi tâl, gweithiom hyd yn oed yn fwy caled i wneud yr ymweliad yn well o ran gwerth arian a mwyhad, felly mae'n cynnig cyffredinol ar ôl cyflywno codi tâl yn well." Fel gyda llawer o amgueddfeydd eraill, pwysleisiwyd y pwsigrwydd o gael cefnogaeth y staff gyda'r math hwn o newid i'r strategaeth brisio mynediad gan y National Football Museum.
- 4.34 Nid yw West Highland Museum yn codi tâl mynediad i unigolion on mae'n "dibynnu ar roddion a gwerthu nwyddau siop i dalu am gostau gweithredu". Symudodd yr Amgueddfa o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl ddegawd yn ôl a oedd yn arwain at gynnydd chwephlyg mewn ymwelwyr. Yn 2022, cyflwynwyd polisi i godi tâl ar gyfer grwpiau o fwy na 10 o bobl gan fod cwmnïau bysiau yn cymryd mantais o'r polisi mynediad di-dâl, ac nid oedd ymwelwyr unigol o'r bysiau yn cyfrannu rhoddion gan gredu fod pris mynediad/rhodd yn cael ei dalu gan drefnydd y daith. Roedd yr amgueddfa hefyd yn codi tâl mynediad ar gyfer arddangosfa arbennig yn 2022 i helpu i godi arian ar ôl y pandemig tra bod niferoedd ymwelwyr yn dal i wella (yr arddangosfa cyntaf o'r math hwn am nifer o flynyddoedd) – ac roedd mynediad yn dal i fod yn ddi-dâl i blant a phobl leol ar gyfer yr arddangosfa hwn. Disgrifir mynediad di-dâl fel "dramatig" yn nhermau cyflawni "cefnogaeth leol" i'r amgueddfa. Cafwyd effaith gadarnhaol ar niferoedd ymwelwyr ac incwm mynediad gan arddangosfa 2022, a nodwyd yn ychwanegol gan yr amgueddfa fod pobl yn parhau gyda'u rhoddion – "roedd oedolion â hawl i mynediad di-dâl yn aml yn talu am docyn neu yn cyfrannu rhodd". Nodwyd hefyd gan yr amgueddfa fod "llawer o ymwelwyr lleol na fydd fel arfer yn ymweld â'r amgueddfa yn dod i weld yr arddangosfa arbennig".

- 4.35 Mae Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa ar hyn o bryd yn codi tâl mynediad ac wedi cynyddu prisiau mynediad mewn blynyddoedd diweddar. Yn flaenorol (cyn 2014) roedd mynediad i'r amgueddfa yn ddi-dâl, ond roedd hyn yn newid gyda chyflwyniad tâl mynediad bach (£1 ar y pryd) i oedolion, sydd wedi cynyddu o bryd i'w gilydd ers hynny ac sydd erbyn hyn wedi cyrraedd £2.50 i oedolion a £2 i gonsesiynau (myfyrwyr a phobl dros 60 oed) – gyda mynediad di-dâl i bobl dan 16 oed.
- 4.36 Wrth gymharu'r safle mynediad di-dâl gyda'r cynllun prisio mynediad presennol, nodwyd effeithiau negyddol codi tâl mynediad ar niferoedd ymwelwyr, amrywiaeth ymwelwyr – yn enwedig ymwelwyr lleol, rhoddion, a gwario eilaidd gan Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa. Mae'r cyd-destun, o fynediad di-dâl i Amgueddfeydd Cenedlaethol yng Nghymru, yn chwarae rôl ar ganfyddiadau ymwelwyr posibl, ac mae hyn yn heriol i'r amgueddfa. Mae'r amgueddfa mewn safle ble mae'n teimlo effeithiau negyddol codi tâl mynediad wrth beidio â manteisio ar godi tâl yn nhermau incwm mynediad oherwydd y pris mynediad isel.
- 4.37 Mae'r Ysgwrn yn codi tâl ar gyfer teithiau tywysedig o'r tŷ, ac i rai digwyddiadau. Cyflwynwyd codi tâl yn dilyn caffaeliad a datblygiad yr eiddo gan Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Parc a'r teulu wedi datblygu perthynas dda, ac er nad oedd y teulu yn gyfforddus â chodi tâl ar gyfer Yr Ysgwrn, roeddent yn deall fod hyn yn angenrheidiol er mwyn cynaliadwyedd y prosiect.
- “Pwy fyddai'n dod?”*
- 4.38 Adroddwyd ar y pryd gan Yr Ysgwrn fod effeithiau negyddol byr-dymor o godi tâl am deithiau o gwmpas tŷ Hedd Wyn gyda'r gymuned wledig lleol yn Nhrawsfynydd a'r ardal, a oedd yn adnabod y teulu'n dda. Roedd rhywfaint o orbryder am barodrwydd ymwelwyr i dalu, a disgwyliadau o fethiant. Mae'r tŷ ar agor am nifer o ddyddiau yn ddi-dâl ac yn cael ei hysbysebu yn lleol, ac mae'r Parc yn gweithio ar brosiect cymunedol gyda chyllid gan Gronfa Treftadaeth i farcio canmlwyddiant dadorchuddiad y cerflun o Hedd Wyn yn 2023.
- 4.39 Roedd y Library of Innerpeffray yn ymateb i'r pandemig drwy symud o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl, ac yna dychwelodd y Llyfrgell yn ôl at godi tâl gan gynyddu eu prisiau ar ôl y pandemig. Ysgogwyd y symudiad i fynediad di-dâl gan y profiad llai yn y Llyfrgell oherwydd cyfyngiadau Covid, ac hefyd i *“annog pobl ag anawsterau incwm llai”*. Roedd ailgyflwyno pris mynediad ychydig yn uwch yn adlewyrchu *“costau cynyddol a gwerth canfyddedig”* Y Llyfrgell.
- 4.40 Ni chafwyd ailgyflwyno prisio mynediad unrhyw effaith ar nifer yr ymwelwyr nag amrywiaeth yr ymwelwyr, tra bod effaith gadarnhaol ar incwm yr amgueddfa. Er nad yw'r Llyfrgell yn cynnig tocynnau consesiwn, mae'n cynnig mis di-dâl ym mis Mawrth bob blwyddyn, sydd yn gweithio'n dda.



**Adlewyrchu Ar
Batrymau, Arloesedd
Ac Arfer Da
Presennol Ynghylch
Prisio Mynediad
Amgueddfeydd**

Adlewyrchu Ar Batrymau, Arloesedd Ac Arfer Da Presennol Ynghylch Priso Mynediad Amgueddfeydd

5.1 Cyflwyniad i Adran 5

5.1 Mae'r adran hon yn adlewyrchu ar gasgliadau'r ymchwil, ac yn amlinellu rhai o'r patrymau allweddol ynghylch strategaethau priso mynediad amgueddfeydd, yn nodi arloesedd newydd ynghylch priso mynediad, yn amlygu rhai enghreifftiau o arfer da, ac yn cyflwyno gwersi allweddol i amgueddfeydd am godi tâl mynediad.

5.2 Patrymau Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd

5.2 Mae gwir gymysgedd o hyder a nerfusrwydd am godi tâl mewn amgueddfeydd fel y nodir yn Adran 4. Mae rhai amgueddfeydd, rhai mwy ac annibynnol yn bennaf, yn hyderus am eu gwerth, ac yn canolbwyntio'n fasnachol ar arlwyyo, masnachu, a digwyddiadau yn ogystal â mynediadau. Mae llawer o'r amgueddfeydd hyn yn adolygu mynediadau bob blwyddyn fel rhan o'u prosesau cynllunio busnes.

5.3 Ar y llaw arall, tra bod rhai fel Derby Museums nad ydynt yn codi tâl fel mater o egwyddor, mae amgueddfeydd sydd â diffyg hyder yng nghynnig eu amgueddfa i naill ai codi tâl, neu gynyddu prisiau mynediad.

5.4 Mae llawer yn adrodd ychydig iawn o effeithiau negyddol ar gynulleidfaoedd o gynyddu prisiau, gan adrodd dim gwahaniaeth mewn nifer ymwelwyr, a dim llawer o dystiolaeth o elastigedd pris gan amgueddfeydd.

5.5 Mae gwario eilaidd ar y safle fel arfer yn ymddangos i beidio â chael ei effeithio gan newidiadau mewn pris. Er enghraifft, mae Wordsworth Grasmere wedi sylwi nad yw gwario eilaidd wedi cael ei effeithio gan y codiadau mewn priso mynediad – gan gefnogi adborth gan ymgynoriadau eraill yn ogystal â'r casgliadau o ymchwil priso mynediad blaenorol (2016).

5.6 Er nad oedd yr ymchwil hon yn casglu safbwyntiau ymwelwyr, damcaniaeth resymol ar gyfer hyn fydd (i) caiff y penderfyniad i ymweld ei wneud o flaen llaw, ond (ii) caiff penderfyniadau gwario eilaidd eu gwneud yn y foment ac yn seiliedig ar ystyriaethau mwy presennol ("Mae chwant bwyd arna' i", "Hoffwn i brynu rhywbeth" a.y.b.)

5.7 Mae rhywfaint o dystiolaeth o haenau o gynigion ychwanegol gyda'r cynnydd mewn prisiau. Er enghraifft, fel rhan o'i strategaeth adfer o'r pandemig, mae Charles Dickens Museum yn awr yn cynnwys taith sain i'w lawrlwytho fel rhan o'r pris mynediad, i'w mwynhau ar ôl yn ogystal ag yn ystod yr ymweliad.

5.8 Mae symud o fynediad di-dâl i godi tâl yn lleihau niferoedd ymwelwyr, ond mae protestiadau torfol yn anghyffredin. Mae'r lleihad yn bennaf oherwydd bod codi tâl yn atal ymweliadau cyflym, ac fel yr amlygwyd gan Taking Charge 2016, nid yw'r data am fynediadau di-dâl a gyda chost yn bosib i'w cymharu yn aml.

5.9 Mae gweithredu o ran codi tâl yn gallu bod yn ddibynnol ar werthoedd ac egwyddorion sefydlu amgueddfeydd. Roedd Derby Museums, sydd â pholisi mynediad di-dâl hirsefydlog, yn codi tâl ar gyfer rhai arddangosfeydd mewn lle penodol gan gynnwys digwyddiad diweddar 'threads of influence' Henry Moore. Fodd bynnag, roedd yr amgueddfa yn teimlo nad oedd y gwagle yn ddigon mawr, gan deimlo fod y rhodd yn 'orfodol', a oedd yn atal pobl rhag gyfrannu rhoddion.

5.10 Digrifiwyd 'Pay What You Can' gan Derby Museums fel mecanwaith i gryfhau'r gofyn am roddion (e.e., 'it would be great if you donate') a gellir cryfhau hyn gyda swm rhodd awgrymedig.

¹¹<https://www.aim-museums.co.uk/wp-content/uploads/2017/04/Final-Report-Taking-Charge-%E2%80%93-Evaluating-the-Evidence-The-Impact-of-Charging-or-Not-for-Admissions-on-Museums.pdf>

- 5.11 Mae llawer o amgueddfeydd yn atal newid prisiau ar gyfer ymweliadau ysgol, er bod 2023 wedi bod yn flwyddyn well na 2022 i lawer yn nhermau niferoedd. Mae'r farchnad ysgolion yn dal i fod yn sensitif i ystyriaethau costau byw ynghylch pris mynediad a thrafnidiaeth. Mae rhai yn cynnig disgowntiau i ysgolion lleol – er enghraifft mae Ironbridge yn rhoi disgowntiau ar brisiau i ysgolion Swydd Amwythig.
- 5.12 Mae sensitifrwydd ynghylch effaith yr argyfwng costau byw ar gynulleidfaoedd. Er enghraifft, ystyriwyd gostwng pris mynediad i Castle Bromwich Historic Gardens a lleihau prisiau rhai digwyddiadau er mwyn cefnogi cynulleidfaoedd lleol, ond penderfynwyd darparu rhai digwyddiadau ychwanegol yn ddi-dâl i gefnogi'r cymunedau agosaf.

5.3 Arloesedd Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd

- 5.13 Mae'r mwyafrif o amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn gweithredu Gift Aid, ac mae'r mwyafrif yn dewis tocyn blyneddol yn ddiodyn ("mae'n anodd iawn i werthu 10%"). Mae tystiolaeth o rywffaint o symleiddio, gyda llai o fathau o docyn, ("gweithio'n galed i'w wneud yn rhwydd"), a thynnu consesiynau ar gyfer oedolion hŷn. Mae tystiolaeth o arloesedd ynghylch tocynnau teulu (dim tâl i blant gydag oedolion sy'n talu, a ffioedd safonol i oedolion a phlant a.y.b.)

"Symudom ni at ddi-dâl i blant yn 2016 ac heb difaru'r penderfyniad."

"Gadael i bobl wybod mai lle iddyn nhw yw hwn."

"Prisio deinamig? Mae mynediadau yn ddigon cymhleth yn barodnid y Foo Fighters ydym ni!"

- 5.14 Mae prisio deinamig yn cael ei ystyried gan amgueddfeydd mawr i reoli brigau (maent fel arfer yn rhoi disgowntiau yn ystod cyfnodau mwy tawel i reoli capasiti). Er nad oes llawer o enghreifftiau arferol o hyn, mae rhai yn ystyried opsiynau:
- Mae'r Natural History Museum yn edrych ar sut i brisio'n ddeinamig er mwyn helpu i dargedu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol (fel pobl ag incwm is; pobl ag anghenion hygrychedd a fydd o bosib eisiau osgoi cyfnodau mwy prysur) i gael mynediad yn ystod slotiau mwy tawel ar gyfer arddangosefydd sydd â thâl fel Wildlife Photographer of the Year.
 - Mae Historic Dockyard Chatham yn ystyried prisio deinamig a 'Pay What You Like' er mwyn targedu teuluoedd incwm isel yn ogystal â modelau eraill gan gynnwys tocynnau pris gostyngedig safonol i bobl ar gynlluniau Credyd Cynhwysol/Pensiwn, a fydd yn rhannol yn defnyddio cyfnodau mwy tawel, ac yn rhannol yn cael croes-cymhorthdal gan incwm a enillwyd o lefydd eraill o fewn yr Ymddiriedolaeth.
- 5.15 Awgrymodd un ymgynghorai y bydd y sector yn symud tuag at beth a elwir yn 'brisio amrywiol safonol', sydd yn helpu i ddisgrifio yr opsiynau a amlinellir uchod.
- 5.16 Eglurodd ymgynghoreion fod mynediadau yn rhan o amrywiaeth o opsiynau cynhyrchu incwm. Disgrifiwyd pwysigrwydd cynhenid eu siopau a bwytai gan Derby Museums. Mae'r Henry Moore Foundation yn prisio pecynnau lletygarwch priodas a chorfforaethol yn ddeinamig.
- 5.17 Dechreuodd yr Henry Moore Foundation werthu tocynnau ar-lein drwy The Art Fund yn 2022 a oedd yn gymorth o ran cynyddu ymwybyddiaeth gyda chynulleidfa posibl ehangach.
- 5.18 Roedd rhai amgueddfeydd a oedd yn ymgysylltu â'r ymchwil yn egluro eu bod wedi neu yn ystyried cynigion tocynnau a oedd yn datblygu o basys blyneddol i aelodaeth 'pass+' gyda rhagor o fanteision. Mae hyn yn adeiladu ar safbwynt llawer o amgueddfeydd o ran Gift Aid a sefydlu perthynas ddyfnach a mwy hir-dymor gydag ymwelwyr.

5.19 Mae darlun gymysg o docynnau ar-lein yn erbyn rhai wyneb yn wyneb, gyda llawer o amgueddfeydd yn adrodd fod y pandemig yn lleihau'r gyfran o ymwelwyr sy'n dod i brynu tocynnau ar y diwrnod. Er enghraifft, nid yw'r Black Country Living Museum yn cynnig disgowntiau ar-lein rhagor, gan fod y niferoedd o'u cymharu â 'wyneb yn wyneb' fwy neu lai yn hafal, gan awgrymu fod archebu ar-lein erbyn hyn yn normal i lawer o bobl. Mae dau draean o docynnau Historic Dockyard Chatham yn cael eu harchebu ar-lein, sydd yn caniatáu cynllunio gwell o adnoddau a llai o amser ciwio. Nid yw'r mwyafrif o amgueddfeydd bellach yn cynnig disgowntiau ar gyfer archebu ar-lein.

5.4 Arfer Da Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd

5.20 Roedd ymatebion prisio yn ystod ac yn syth ar ôl y pandemig yn gweithio'n dda i lawer o mgueddfeydd. Roedd ymatebion yn cydnabod nad oedd y cynnig yn arferol i lawer, ac hefyd yn grymuso'r amgueddfeydd i wneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol.

5.21 Mae'n bwysig cydnabod fod trothwyon pris, a dylai amgueddfeydd fod yn ofalus o symud o, e.e. £9.99 i £10. Er enghraifft, yn ôl The Historic Dockyard Chatham, roedd cynyddu prisiau y tu hwnt i rifau wedi'u talgrynnu bob amser yn achos i fod yn ofalus. Pan gaiff hyn ei wneud roedd yn gymorth, yn ôl y Dockyard i'w wneud ar yr un pryd â lansio datblygiad neu ddigwyddiad newydd (aeth y Dockyard dros y trothwy o £20 ar yr un pryd â lansio 'Command of the Oceans').

5.22 Fel y trafodwyd yn gynharach, mae adolygu strategaeth brisio yn flynyddol (gan reoli disgwyliadau ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr, ac osgoi 'neidiau mawr') yn arfer da ac mae angen i godiadau pris fod yn rhan o strategaeth gyffredinol. Mae hyn yn osgoi 'neidiau mawr' yn dilyn gohirio penderfyniadau anodd ac yn sefydlu adolygiad mynediadau yn niwylliant gwneud penderfyniadau'r amgueddfa.

5.23 Peidiwch â rhagdybio mai codi tâl yn unig yw'r ateb i bob problem amgueddfeydd. Mae llawer Piawn o ffactorau eraill yn bwysig i wella hyfywedd a chynaliadwyedd amgueddfeydd.

"Mae hyn yn anodd gan fydd safbwyntiau gwirfoddolwyr blaen y tŷ yn wahanol i rai'r ymddiriedolwyr sydd yn edrych ar y mantolenni yn unig."

5.24 Gwrandewch ar eich cynulleidfaoedd a gwrandewch ar eich tîm blaen y tŷ. Bydd eu profiadau a'u safbwyntiau yn berthnasol ac yn werthfawr iawn.

"Mae'n syniad da i fod yn frwd ac yn benderfynol gyda'ch dulliau gweithredu - naill ai tocynnwch, neu beidiwch. Mae tocynnu rhannol yn anfon neges sy'n achosi drysu."

5.25 Mae cyfathrebu yn hollbwysig, ac ni ellir gorddweud pa mor hanfodol yw hyn. Eglurwch benderfyniadau codi tâl, dylai pawb mewn amgueddfa, o ystafell y bwrdd i flaen y tŷ, staff cyflogedig neu wirfoddol ddeall ac eirioli dros yr amgueddfa.

5.26 Mae Beamish Museum yn pwysleisio pa mor bwysig yw cyfathrebu'n glir iawn am resymau unrhyw newidiadau prisio - a gall hyn gynnwys naratif clir ar gostau cynyddol i'r amgueddfa yn ogsystal â naratif clir am ychwanegu at ansawdd y cynnig i ymwelwyr - "I ni, mae'n bwysig pwysleisio'r gwerth am arian gwyh sydd ar gael trwy gydol y flwyddyn gyda'r 'Unlimited Pass' (talu unwaith i ymweld cymaint o weithiau ag y dymunwch yn ystod oriau agor arferol)".

5.27 Mae gwersi gan West Highland Museum am newid y safle codi tâl mynediad yn cynnwys y pwysigrwydd o "oresgyn rhwystrau a sgeptigiaeth y staff a'r bwrdd" yn ogsystal â rol arwyddocaol gwirfoddolwyr - mae'n "hanfodol bod gwirfoddolwyr yn teimlo fel rhan o'r amgueddfa - mae'n rhaid i chi werthfawrogi eu rôl".

5.28 Mae Dinefwr, fel amgueddfeydd eraill, yn pwysleisio bod "cyfathrebu yn dda am ble mae'r arian yn mynd" i ymwelwyr yn bwysig - mae'r 'gofyn' yn haws os ydy'n bosib dangos iddynt fod yr incwm mynediad yn mynd yn uniongychol tuag at gefnogi cynnig a chynhaliaeth, cadwraeth a diogelu'r amgueddfa a'r casgliad.

- 5.29 Mae gwersi allweddol gan Kirklees Museums & Galleries am newid y strategaeth brisio mynediad yn cynnwys gwranddo ar dîmau blaen y tŷ – “y nhw yw’r bobl sy’n siarad â’r ymwelwyr”, yn ogystal â gwerthfawrogi’r heriau biwrocraidd a thechnegol y gellir eu wynebu wrth weithredu systemau newydd (yn enwedig i amgueddfeydd awdurdod lleol) – “byddwch yn amyneddgar”. Mae’n bwysig cydnabod bod newid diwylliant yn digwydd gyda newid strategaeth fynediad a bod angen “mynd â’r staff gyda chi” ar y newid hwnnw – gan eu grymuso a chael ymwrwymiad gan staff i “sicrhau eu bod yn rhan o’r broses o newid”.
- 5.30 Mae gwersi allweddol o’r Library of Innerpefferay yn cynnwys “siaradwch â’r tîm” – “y nhw sy’n gwneud stwff blaen y tŷ”, ac felly rhaid i’r tîm “fod yn gyfforddus gydag unrhyw newid”.
- 5.31 Roedd Heritage Centre Bellingham yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu yn nhermau “bod yn glir iawn” am y ‘gofyn’ am roddion, ac hefyd am ddarparu amrywiaeth o opsiynau (cerdyn ac arian parod) i dderbyn rhoddion. Pwysleisiwyd yn gryf y pwysigrwydd o gyfathrebu a bod yn glir ar y wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol, am fabwysiadu strategaeth brisio newydd gan Heritage Centre Bellingham – yn enwedig o ran ‘pay what you feel’.
- “Mae’r cyhoedd yn ein gweld ni fel rhywbeth a ddylai fod yn ddi-dâl neu’n rhad. Nid ydynt yn fodlon talu am unrhyw beth yn agos at gwir gost eu hymweliad. Mae’n anodd egluro mai nid yr awdurdod lleol ydym ni.”*
- 5.32 Y gwersi allweddol o’r math hwn o ganfyddiad yw:
- Byddwch yn glir iawn wrth gyfathrebu newidiadau mawr.
 - Rhaid i amgueddfa annibynnol heb unrhyw gyllido craidd sydd yn gorfod codi tâl er mwyn bod yn hyfyw gyfathrebu hyn yn hyderus. Byddwch yn barod ar gyfer y trafodaethau hyn, a hyfforddych staff blaen y tŷ a gwirfoddolwyr i gael y sgysiau hyn yn gadarnhaol gydag ymwelwyr.
 - Gall ymwelwyr sydd yn cyrraedd y ddesg flaen gyda disgwyliadau gwahanol ynghylch mynediadau arwain at densiwn, embaras a rhwystredigaeth.
 - Ceisiwch osgoi’r sgôp am drafodaethau anodd wrth y ddesg (fel codi tâl ychwanegol i arddangosfeydd, tocynnau teulu cymhleth, materion ynghylch Gift Aid, rhoddion a.y.b.)
- 5.33 Cyflwynwch godiadau pris sylweddol gyda datblygiadau newydd (“mwy am fwy” fel adnewyddu, gwagleoedd newydd, arddangosfeydd). Er enghraifft, roedd Bletchley Park yn cydgysylltu codiadau pris yn 2014 yn dilyn adnewyddu, ac yn 2020 gydag arddangosfa newydd.
- 5.34 Mae Beamish Museum yn amlygu’r pwysigrwydd o gael cynllunio ac amser cyflwyno digonol ar gyfer newidiadau i brisio mynediad – gan sicrhau eich bod yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu gyda phob rhanddeiliad perthnasol, a gall hyn gynnwys y bwrdd, staff a gwirfoddolwyr yn ogystal ag ymwelwyr.
- 5.35 Mae Dinefwr yn pwysleisio’r pwysigrwydd o “eglurder prisiau mynediad” a bod “y rhesymau am y costau yn helpu i ymwelwyr ddeall gwerth eu mynediad”. Fel gyda llawer o enghreifftiau eraill, roeddent hefyd yn amlygu fod “angen i staff gael hyfforddiant ynghylch hyn a chael hyder yn y costau”. Pwysleisiodd Dinefwr hefyd “nad yw hyn yn rhwydd” i’w wneud wrth newid pethau – “peidiwch â gadael i bobl feddwl y byddai’n rhwydd”, ac mae’n bwysig hefyd i gael “cyfathrebu agored” ac i “siarad drwy’r materion” gyda’r tîm ac i “ddod â’r tîm gyda chi” – byddwch yn “agored ac onest” gyda staff ac ymwelwyr. Mae llawer o elfennau gwahanol yn ategu’r llwyddiant a welwyd, yn enwedig “yr hyder a’r penderfyniad”.
- 5.36 Dylai unrhyw benderfyniadau bob amser fod yn seiliedig ar ddata da a dadansoddiad cadarn.
- 5.37 Mae ‘Pay what you feel’ yn gweithio’n dda fel strategaeth am roddion i rai (“mae’n help mawr i reoli disgwyliadau ymwelwyr”).

5.5 Gwersi a Ddysgwyd/Materion i'w Hystyried Ynghylch Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd

*“Peidiwch ag ofni codi tâl ond sicrhewch fod popeth
‘rydych yn ei wneud yn unol â’ch pwrpas a gwerthoedd craidd.”*

5.38 Casgliad clir o’r ymchwil hon yw na ellir ystyried prisio yn unig gan amgueddfeydd, rhaid i hyn fod yn rhan o’r broses cynllunio busnes wedi’i hysbysu gan werthoedd y sefydliad.

5.39 Mae llawer o amgueddfeydd yn defnyddio meincnodi fel rhan o’u prosesau gwneud penderfyniadau. Wrth wneud hyn, mae’n bwysig edrych ar berthnasedd cymaryddion, ac edrych ar eu cynnig, yr amgylchiadau a’r nodweddion allweddol, a pha un a yw cymariaethau yn rhesymol ac ystyrlon.

“Peidiwch ag ofni newid”

“Does dim angen ei roi i ffwrdd”

*“Peidiwch â thanwerthu beth ‘rydym yn ei wneud –
gwnewch rywbeth gwych a bydd pobl yn dod a bydd pobl yn talu”*

5.40 Mae’n bwysig i fod yn hyderus wrth wneud penderfyniadau am brisio, ac i beidio â thanwerthu. Mae llawer o amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn dadlau bod codiadau pris blynyddol yn gyffredinol yn cael eu derbyn gan ymwelwyr oni bai eu bod yn ystyried yr ymweliad yn werth am arian.

5.41 Mae’n bwysig sicrhau bod amgueddfeydd yn ymgysylltu ac yn perswadio byrddau, rhanddeiliaid, staff a gwirfoddolwyr ynghylch prisio a mynediadau.

5.42 Mae gwersi allweddol ynghylch y newid mewn prisio mynediad ar gyfer Llety’r Barnwr yn cynnwys cael digon o hyder i’w newid – *“peidiwch ag ofni ei wneud”*; *“peidiwch ag ofni cynyddu’r prisiau”* – wrth sicrhau bod cydbwysedd yn y ffordd y caiff ei gyflwyno, a bod gennych *“neges glir a chyson”* am brisiau, a’ch bod yn gwthio’r neges am fod yn annibynnol a bod gorfod cynhyrchu incwm yn rhan bwysig o hynny.

5.43 Mae’n bwysig rheoli disgwyliadau. Mae llawer o amgueddfeydd yn tynnu neu yn symleiddio tocynnau consesiwn, ac mae’n bwysig i fod yn glir ac yn uniongyrchol am hyn o ran y neges am gonsesiynau gyda phobl hŷn yn enwedig.

5.44 Os ydy rhoddion yn rhan bwysig o strategaeth brisio amgueddfa, mae’n hanfodol i fod yn glir ac yn gydgysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu disgwyliadau ynghylch ‘Pay What You Like’, lleoliad y pwyntiau rhodd yn yr amgueddfa, a’i wneud yn hawdd (os nad yn haws) i wneud rhodd heb ddefnyddio arian parod.

5.45 Mae Kirklees Museums & Galleries wedi gweithredu dull gweithredu mwy strategol i roddion erbyn hyn, gan gynnwys darparu hyfforddiant a gweithdai i flaen y tŷ yn Oakwell Hall; datblygu neges mwy clir a chryf ynghylch rhoddion a *“dilysrwydd y cynnig”*; a hefyd yn nefnydd a lleoliad blychau rhodd a phwyntiau digyswllt yn y Neuadd.

5.46 Adlewyrchwyd ar nifer o wersi allweddol ynghylch codi tâl mynediad a chwilio am roddion gan ymwelwyr sydd yn bwysig i’w hamgueddfeydd i gyd gan Live Borders, ac mae hyn yn cynnwys: *“mae’r pwysigrwydd o gyfleu’r neges i bobl yn allweddol”* – yn enwedig ynghylch pwysleisio statws elusennol a mantais y rhodd i’r amgueddfa a’r casgliad.

- 5.47 Pan benderfynwyd gofyn am roddion yn fwy rhagweithiol gan Live Borders yn wreiddiol, roedd anfodlonrwydd ymysg staff, a oedd oherwydd unigolion a phersonoliaethau yn bennaf. Roedd yn ymdrech fawr i'w weithredu a'i sefydlu dros y 6 mis cyntaf, ac mae gwersi allweddol yn cynnwys y defnydd o hyfforddi – ac o ddefnyddio staff sydd yn enghreifftiau o arfer da i gynnig cefnogaeth cymheiriaid i eraill. Mae gwersi eraill yn cynnwys defnyddio blychau rhodd sydd yn denu sylw ac sydd yn unigryw i gynnig/casgliad yr amgueddfa, a *“rhoi clod i'r staff am annog incwm”* wrth roi adroddiad i'r Bwrdd ar berfformiad ariannol. Mae heriau i Live Borders o ran casglu data cwsmeriaid ar gyfer Gift Aid a.y.b., mewn ffordd llyfn ac effeithiol nad yw'n anghyfleus i brofiad yr ymwelwyr.
- 5.48 Mae Heritage Centre Bellingham wedi sylw bod cael strategaeth mynediad 'pay what you feel' yn haws i'r amgueddfa, ond yn pwysleisio'n gryf ei fod yn bwysig hyfforddi'r gwirfoddolwyr ar y strategaeth newydd o ofyn am roddion. Mae'r Ganolfan wedi sylwi ei fod yn haws i ofyn am roddion, ac mae'r model hwn yn golygu nad oes unrhyw broblemau i wirfoddolwyr ddelio gyda nhw ar flaen y tŷ gyda phobl nad ydynt eisiau talu am fynediad: *“mae'n neges fwy cadarnhaol o lawer”*; *“mae'n haws o lawer i wirfoddolwyr wneud hyn - nid oes unrhyw drafodaethau anodd wrth y ddesg flaen”*. Pwysleisiwyd hefyd gan y Ganolfan y gallwch gael *“ymateb o syndod pleserus”* pan fod ymwelwyr yn sylweddoli fod mynediad yn ddi-dâl.
- 5.49 Mae'r amgueddfeydd hynny sydd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd amgueddfa gyda dull gweithredu a arweinir gan fusnes yn eithaf clir fod codi tâl yn darparu annibyniaeth a mwy o sicrwydd, yn caniatáu buddsoddiad ac arian cyfatebol ar gyfer adnoddau prosiect, ac yn lleihau dibyniaeth ar gyllido cyhoeddus.



**Atodiad 1: crynodeb
o ymatebion arolwg
a chanlyniadau
arolwg allweddol**

Atodiad 1: Crynodeb o ymatebion arolwg a chanlyniadau arolwg allweddol

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno rhagor o wybodaeth am yr arolwg o'r sector amgueddfeydd a gwblhawyd ar gyfer yr ymchwil hon. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o broses yr arolwg, ystyriaethau am gynrychioldeb yr ymatebion, a chyflwyniad o ganlyniadau'r arolwg ar gyfer y cwestiynau arolwg pendant a meintiol.

Fel y nodwyd yn Adran 1 yr adroddiad, maes allweddol o'r ymchwil oedd yr arolwg. Fe'i datblygwyd a'i gweithredwyd fel arolwg ar-lein, yn agored i bob amgueddfa yn y DU.

Nod yr arolwg oedd mabwysiadu dull gweithredu eang a chynhwysfawr i helpu i sicrhau bod canfyddiadau'r ymchwil yn gadarn a thrylwyr yn nhermau darparu cwmpas digonol o sector yr amgueddfeydd, yn ogystal â sicrhau bod yr ymchwil yn gynhwysol a thryloyw yn nhermau'r cyfle i amgueddfeydd ymgysylltu ynddi.

Hyrwyddwyd yr arolwg drwy nifer o lwybrau, gan gynnwys cefnogaeth gan seydliadau Grwpiau Llywio yn ogystal ag amrywiaeth eang o sefydliadau a rhwydweithiau amgueddfeydd eraill – gyda phob un yn helpu i ysgogi ymateb da i'r arolwg.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol, mewn cylchlythyron, ebyst, ar wefannau, a thrwy gyfathrebu uniongyrchol unigol gydag amgueddfeydd gan bob aelod o'r Grŵp Llywio – Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) a'i phartneriaid Arts Council England (ACE), Museums and Galleries Scotland (MGS), Llywodraeth Cymru, Cyngor y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol (NMDA) ac Art Fund.
- Hyrwyddo gan y tîm astudio ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ebyst uniongyrchol, ac mewn trafodaethau anffurfiol gydag amgueddfeydd.

Ar y cyfan, derbyniwyd mwy na 450 o ymatebion crai gan yr arolwg, ac unwaith i'r data gael eu glanhau, defnyddiwyd cyfanswm o 344 ymateb dilys yn y dadansoddiad. Mae hyn yn gyfradd ymateb gwych i arolwg o'r math hwn. Mae Tablau A1.1 ac A1.2 isod yn dangos cynrychioldeb yr arolwg yn nhermau lleoliad daearyddol yr ymatebwyr (A1.1) a math yr amgueddfa (A1.2).

Mae'r tablau hyn yn dangos fod ymatebwyr yr arolwg yn cynrychioli cymysgedd da, â chyfran briodol o sector yr amgueddfeydd yn ddaearyddol i Loegr, Cymru a'r Alban. Yn nhermau'r math o amgueddfa, gall fod ymatebion yr arolwg yn adlewyrchu amgueddfeydd annibynnol yn ormodol, ond o ystyried mai AIM yw comisiynydd allweddol yr ymchwil hon, ac yn cefnogi hyrwyddiant yr arolwg yn gryf, nid yw hyn yn annisgwyl.

Tabl A1.1: Lleoliad Amgueddfa

Lleoliad Amgueddfa	Cyfrif	Canran
Lloegr – Llundain	22	6%
Lloegr – Canolbarth	55	16%
Lloegr – Gogledd	55	16%
Lloegr - De Ddwyrain	95	28%
Lloegr - De Orllewin	46	14%
Gogledd Iwerddon	1	0.3%
Yr Alban	29	9%
Cymru	36	11%
Cyfanswm	339	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=329)

Tabl A1.2: P'un o'r canlynol sydd yn disgrifio math eich amgueddfa orau?

Math o Amgueddfa	Cyfrif	Canran
Annibynnol	271	73%
Awdurdod Lleol	28	8%
Cyn-Awdurdod Lleol (yn awr yn gweithredu fel ymddiredolaeth annibynnol /sefydliad hyd-braich)	21	6%
Prifysgol	6	2%
Cenedlaethol	6	2%
Milwrol	17	5%
Arall	21	6%
Cyfanswm	370	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=370)
 Nodwch os gwelwch yn dda: roedd ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un opsiwn. Hefyd, mae rhai ymatebwyr sy'n diffinio eu hunain fel Cenedlaethol yn gweithredu yn arddull rhai cenedlaethol yn hytrach na'u bod yn Amgueddfeydd Cenedlaethol.

Codi Tâl Presennol Yn Eich Amgueddfa

Tabl A1.3: P'un o'r datganiadau canlynol sydd yn disgrifio'r polisi codi tâl / priso mynediad presennol orau yn eich amgueddfa?

Polisi Mynediad / Codi Tâl Presennol	Cyfrif	Canran
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	15	4%
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	28	8%
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	176	51%
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	123	36%
Cyfanswm	342	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=342)

Tabl A1.4: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl math o amgueddfa

	Annibynnol	Awdurdod lleol	Cyn-awdurdod lleol	Prifysgol	Cenedlaethol	Milwrol	Arall	Cyffredinol	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	3%	4%	14%	0%	100%	0%	14%	4%	16
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	9%	4%	5%	0%	0%	6%	5%	8%	29
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	55%	21%	48%	0%	0%	65%	48%	51%	190
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	33%	71%	33%	100%	0%	29%	33%	36%	135
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	370

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=370)

Nodwch os gwelwch yn dda: fel y cydnabyddwyd yn Nhabl A1.2, mae rhai ymatebwyr sy'n diffinio eu hunain fel Cenedlaethol yn gweithredu yn arddull rhai cenedlethol yn hytrach na'u bod yn Amgueddfeydd Cenedlaethol. Goblygiad hyn i'r tabl hwn yw ei fod yn ymddangos yn wreiddiol fod rhai Amgueddfeydd Cenedlaethol yn codi tâl am fynediad cyffredinol – ond nid dyma yw'r achos. Felly, addaswyd y canlyniadau yn y tabl hwn â llaw, ac unrhyw siartiau perthnasol i hyn yn yr adroddiad, i gynnwys Amgueddfeydd Cenedlaethol yn unig yn y categori Cenedlaethol ac i ail-ddosbarthu y rhai sy'n gweithredu yn arddull y rhai cenedlaethol fel Amgueddfeydd Annibynnol.

Tabl A1.5: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl lleoliad yr amgueddfa

	Lloegr Llundain	Lloegr Canolbarth	Lloegr Gogledd	Lloegr De Ddwyrain	Lloegr De Orllewin	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	14%	7%	2%	2%	0%	0%	10%	3%	14
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	9%	9%	7%	9%	9%	0%	7%	6%	28
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	36%	49%	62%	51%	50%	0%	52%	58%	176
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	41%	35%	29%	38%	41%	100%	31%	33%	121
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	339

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=339)

Tabl A1.6: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl graddfa o incwm gan gyllidwyr craidd

	Nid oes gennym unrhyw gyllidwyr craidd	Mae llai na 25% o'n hincwm yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	Mae cyfran nodedig o'n hincwm (25%-50%) yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	Mae mwyafrif ein hincwm (50%-75%) yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	Mae mwyafrif llethol ein hincwm (75%+) yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	Cyffredinol	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	2%	0%	5%	11%	12%	4%	9
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	12%	7%	10%	0%	0%	8%	21
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	51%	79%	57%	68%	24%	51%	127
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	35%	14%	29%	21%	64%	36%	80
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	100%	237

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=237)

Tabl A1.7: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl lefel y gystadleuaeth i ddenu ymwelwyr.

	Ddim yn gystadleuol o gwbl – ychydig iawn neu ddim atyniadau ymwelwyr eraill yn yr ardal	Ychydig yn gystadleuol	Gweddol gystadleuol	Cystadleuol iawn – llawer o atyniadau ymwelwyr eraill yn yr ardal	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	0%	5%	1%	7%	9
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	8%	8%	10%	8%	21
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	56%	41%	65%	53%	128
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	36%	46%	23%	32%	79
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	237
<i>Codi Tâl</i>	64%	54%	77%	68%	158
<i>Ddim yn Codi Tâl</i>	36%	46%	23%	32%	79

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=237)

Tabl A1.8 Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl arwyddocâd yr economi ymwelwyr i ardal leol lleoliad yr amgueddfa

	Ddim yn arwyddocaol o gwbl	O fân arwyddocâd	Sector gweddol arwyddocaol	Un o nifer o sectorau arwyddocaol	Sector allweddol	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	0%	8%	0%	3%	5%	9
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	13%	20%	8%	7%	8%	21
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	0%	40%	50%	62%	60%	129
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	88%	32%	42%	28%	27%	79
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	238
<i>Codi Tâl</i>	13%	68%	58%	72%	73%	159
<i>Ddim yn Codi Tâl</i>	88%	32%	42%	28%	27%	79

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=238)

Tabl A1.9: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl pwysigrwydd yr amgueddfa i economi ymwelwyr yr ardal leol

	Ddim yn bwysig o gwbl	O fân pwysigrwydd	Atyniad gweddol arwyddocaol	Un o nifer o atyniadau arwyddocaol	Atyniad allweddol (h.y., amgueddfa gyrchfan sy'n denu pobl i'r ardal)	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	18%	0%	4%	3%	4%	9
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	0%	3%	14%	4%	13%	21
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	9%	52%	45%	65%	65%	129
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	73%	45%	38%	28%	19%	79
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	237
<i>Codi Tâl</i>	27%	55%	62%	72%	81%	159
<i>Ddim yn Codi Tâl</i>	73%	45%	38%	28%	19%	79

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=238)

Tabl A1.10: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl maint yr amgueddfa (gan ddefnyddio niferoedd ymwelwyr 2022 i gategoreiddio maint)

	Bach (hyd at 20k)	Cynhedrol (20k i 50k)	Mawr (50k i 100k)	Mwyaf (>100k)	Ar gyfartaledd	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	3%	9%	0%	9%	4%	9
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	9 %	9%	23%	9%	10%	21
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	51%	53%	62%	61%	53%	113
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	37%	29%	15%	22%	33%	69
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	212
<i>Codi Tâl</i>	63%	71%	85%	78%	67%	143
<i>Ddim yn Codi Tâl</i>	37%	29%	15%	22%	33%	69

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=212)

Tabl A1.11: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl y gyfran o ymwelwyr lleol i'r amgueddfa

	Mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn 50% +		Mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn llai na 50%	
	Cyfrif	Canran	Cyfrif	Canran
-				
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	3	3%	4	4%
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	12	10%	6	7%
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	54	46%	60	65%
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	48	41%	22	24%
Cyfanswm	117	100%	92	100%
<i>Codi Tâl</i>	69	59%	70	76%
<i>Ddim yn Codi Tâl</i>	48	41%	22	24%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=209)

Tabl A1.12: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol ymhob amgueddfa yn ôl amser aros ymwelwyr

Mae o leiaf 50% of ymwelwyr yn adrodd yr amser aros hwn:	Codi Tâl (%)	Ddim yn Codi Tâl (%)	Cyfrif
Llai na 30 munud	21%	79%	42
Rhwng 30 munud a 2 awr	70%	30%	126
Rhwng 2 a 4 awr	86%	14%	35
Mwy na 4 awr	100%	0%	7
Ar gyfartaledd/Cyfanswm	64% 134	36% 76	100% (210)

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=209)

Gweler gweddill yr atodiad hwn ar gyfer canlyniadau'r cwestiynau meincnodi a ofynnwyd ar bwynt hwn yr arolwg ond a adroddir arnynt yn Adran 3 yr adroddiad.

Effeithiau a phrofiadau newidiadau i godi tâl mynediad

Tabl A1.13: Dangoswch os gwelwch yn dda drwy dicio'r blychau perthnasol pa un a yw eich amgueddfa wedi newid ei safle codi tâl mynediad naill ai ar gyfer mynediad cyffredinol, neu ar gyfer arddangosfeydd penodol mewn unrhyw rai o'r blynyddoedd canlynol:

	Cyfrif
Cyn y pandemig (2018 a 2019) – ar gyfer mynediad cyffredinol	74
Cyn y pandemig (2018 a 2019) – ar gyfer arddangosfeydd penodol	15
2020 and 2021 - ar gyfer mynediad cyffredinol	75
2020 and 2021 - ar gyfer arddangosfeydd penodol	17
2022 - ar gyfer mynediad cyffredinol	95
2022 - ar gyfer arddangosfeydd penodol	16
Dim o'r uchod	169
	461
Cyfanswm	341

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=341) Nodwch os gwelwch yn dda bod ymatebwyr yn cael ticio mwy nag un categori. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn ticio 'dim o'r uchod' ac opsiwn arall felly cywirwyd yr ymatebion hynny. Cafwyd 461 o ymatebion gan 341 o ymatebwyr.

Tabl A1.14: Pa fath(au) o newid(iadau) a wnaed i'ch safle codi tâl mynediad? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

	Cyfrif
Symud o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad	18
Symud o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl	29
Cyflwyno cynnydd pris mynediad	114
Cyflwyno gostyngiad pris mynediad	8
Cyflwyno math(au) newydd o docyn mynediad	49
Cyfanswm	218

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=162) Nodwch os gwelwch yn dda bod ymatebwyr yn cael ticio mwy nag un ymateb, felly nifer yr ymatebwyr yw 162, a nifer yr ymatebion yw 218.

Gweler gweddill yr atodiad hwn ar gyfer canlyniadau'r cwestiynau ar effeithiau a phrofiadau newid codi tâl mynediad a ofynnwyd ar bwynt hwnt yr arolwg ond a adroddir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad.

I'r rhai nad oedd wedi newid eu safle coi tâl mewn blynyddoedd diweddar:

Tabl A1.15: A wnaethoch ystyried gwneud unrhyw newidiadau i'ch safle codi tâl mynediad?

	Cyfrif	Canran
Do	112	64%
Naddo	63	36%
Cyfanswm	175	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=175)

Tabl A1.16: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol yn eich amgueddfa yn ôl a oeddech yn ystyried gwneud unrhyw newidiadau i'ch safle codi tâl mynediad?

	Do	Nadda	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	50%	50%	6
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	50%	50%	6
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	47%	53%	62
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	76%	24%	101
Cyfanswm	64%	36%	175
<i>Codi Tâl</i>	<i>47% (35)</i>	<i>53% (39)</i>	<i>74</i>
<i>Ddim yn Codi Tâl</i>	<i>76% (77)</i>	<i>24% (24)</i>	<i>101</i>

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=175)

Ystyriaethau i newidiadau yn y dyfodol i godi tâl mynediad yn eich amgueddfa

Tabl A1.17: A ydych yn bwriadu newid eich safle/strategaeth godi tâl mynediad eleni – h.y., yn ystod 2023 – i fynediad cyffredinol a / neu arddangosfeydd penodol?

	Cyfrif	Canran
Nacydyn	236	76%
Ydyn	76	24%
Cyfanswm	312	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=312)

Tabl A1.18: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol yn eich amgueddfa yn ôl eich cynlluniau i newid eich safle/strategaeth godi tâl mynediad yn ystod y flwyddyn galendr hon.

	Nacydyn	Ydyn	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	77%	23%	13
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	76%	24%	25
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	62%	38%	157
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	94%	6%	115
Cyfanswm	76%	24%	310

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=310)

Gwybodaeth Am Eich Amgueddfa A'r Cyd-Destun Lleol

Tabl A1.19: P'un o'r canlynol sy'n disgrifio orau safle eich amgueddfa yn nhermau cyllidwyr craidd (e.e., awdurdod lleol, corff cyllido cenedlaethol, llywodraeth genedlaethol a.y.b.)?

	Cyfrif	Canran
Mae llai na 25% o'n hincwm yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	29	12%
Mae cyfran nodedig o'n hincwm (25%-50%) yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	21	9%
Mae mwyafrif ein hincwm (50%-75%) yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	19	8%
Mae mwyafrif llethol ein hincwm (75%+) yn dod o un neu ddau o gyllidwyr craidd	25	11%
Nid oes gennym unrhyw gyllidwyr craidd	143	60%
Cyfanswm	237	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=237)

Tabl A1.20: A ydych yn hawlio Gift Aid ar fynediadau?

	Cyfrif	Canran	Canran heb yr atebion Amherthnasol
Nacydyn	74	31%	38%
Amherthnasol - nid ydym yn gymwys ar gyfer y cynllun	48	20%	
Ydyn - y cynllun 10% ychwanegol	54	22%	28%
Ydyn - y cynllun pas blynyddol	66	27%	34%
Cyfanswm	242	100%	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=242)

Tabl A1.21: Ydy'ch amgueddfa yn casglu gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth ymwelwyr? (e.e., oedran, anabledd, rhywedd, ethnigedd, dosbarthiad economaidd-gymdeithasol)

	Cyfrif	Canran
Nacydyn	158	67%
Ydyn	77	33%
Cyfanswm	235	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=235)

Tabl A1.22: Croesdablu o'r polisi codi tâl/prisio mynediad presennol yn eich amgueddfa yn ôl a ydy'ch amgueddfa yn casglu gwybodaeth ar ddemograffeg ac amrywiaeth eich ymwelwyr?

	Nacydyn	Ydyn	Cyfrif
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig	25%	75%	8
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol	62%	38%	21
Rydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig	65%	35%	128
Nid ydym yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol nag arddangosfeydd penodol	77%	23%	78
Cyfanswm	68%	32%	234

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=234)

Tabl A1.23: Sut y byddwch yn disgrifio'r lefel o gystadleuaeth ar gyfer denu ymwelwyr yna ardal leol eich amgueddfa?

	Cyfrif	Canran
Ddim yn gystadleuol o gwbl - ychydig iawn neu ddim atyniadau ymwelwyr yn yr ardal	25	11%
Ychydig yn gystadleuol	63	27%
Gweddol gystadleuol	77	32%
Cystadleuol iawn - mae llawer o atyniadau ymwelwyr eraill yn yr ardal	72	30%
Cyfanswm	237	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=237)

Tabl A1.24: Pa mor arwyddocaol yw'r economi ymwelwyr i ardal leol eich amgueddfa?

	Cyfrif	Canran
Sector allweddol	92	39%
Un o nifer o sectorau arwyddocaol	62	26%
Sector gweddol arwyddocaol	51	21%
O fân arwyddocâd	25	11%
Ddim yn arwyddocaol o gwbl	8	3%
Cyfanswm	238	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=238)

Tabl A1.25: Pa mor bwysig yw eich amgueddfa/atyniad at economi ymwelwyr yr ardal leol?

	Cyfrif	Canran
Atyniad allweddol (h.y., amgueddfa gyrchfan sydd yn denu pobl i'r ardal)	54	23%
Un o nifer o atyniadau arwyddocaol	68	29%
Atyniad gweddol arwyddocaol	74	31%
Atyniad o fân arwyddocâd	31	13%
Ddim yn bwysig o gwbl	11	5%
Cyfanswm	238	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=238)

Tabl A1.26: Ydy'ch amgueddfa wedi defnyddio, neu wedi ystyried defnyddio, priso deinamig ar gyfer mynediad i'ch amgueddfa?

	Cyfrif	Canran
Ydyn – rydym ni wedi ei ddefnyddio	4	2%
Wedi ystyried ond heb ei ddefnyddio eto	44	19%
Nacydyn	189	80%
Cyfanswm	237	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=237)

Tabl A1.27: Ydy'ch amgueddfa wedi defnyddio, neu wedi ystyried defnyddio, priso 'pay what you can/pay what you like' ar gyfer mynediad i'ch amgueddfa?

	Cyfrif	Canran
Ydyn – rydym ni wedi ei ddefnyddio	21	9%
Wedi ystyried ond heb ei ddefnyddio eto	45	19%
Nacydyn	171	72%
Cyfanswm	237	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=236)

Tabl A1.28: Ydy'ch amgueddfa wedi defnyddio, neu wedi ystyried defnyddio, codi tâl ar gyfer mynediad rhithiol/ar-lein i'ch amgueddfa?

	Cyfrif	Canran
Ydyn – rydym ni wedi ei ddefnyddio	20	8%
Wedi ystyried ond heb ei ddefnyddio eto	48	20%
Nacydyn	168	71%
Cyfanswm	236	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad DC Research/Durnin Research o ganlyniadau'r arolwg, Medi 2023 (n=236)

Tabl A1.29: Ydy'ch amgueddfa wedi defnyddio, neu wedi ystyried defnyddio modelau codi tâl mynediad ar gyfer ymweliadau ysgol i'r amgueddfa?

	Count	Percent
Ydyn – rydym ni wedi eu defnyddio	118	51%
Wedi ystyried ond heb eu defnyddio eto	31	13%
Nacydyn	84	36%
Cyfanswm	233	100%

